# Archwiliad â ffocws ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd. Caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn eu cyflawni'n bennaf drwy Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr awdurdodau lleol. Datblygwyd yr archwiliad hwn i asesu sut mae awdurdodau lleol yn bodloni eu rhwymedigaethau o ran cyflwyno'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) statudol yng Nghymru a'i weithredu yn unol â gofynion statudol.

Defnyddiwyd data'r archwiliad i lywio'r adolygiad tair blynedd o weithrediad y Cynllun. Cafodd yr 'Adolygiad o'r Broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru'[1] (adolygiad 2018) ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2018. Mae'r adroddiad archwilio hwn yn mynd i'r afael ag un o argymhellion yr adolygiad (Argymhelliad 5), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ASB gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ei archwiliad o weithrediad y Cynllun gan awdurdodau lleol.

Aseswyd darpariaeth awdurdodau lleol yn erbyn gofynion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf), Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, (Rheoliadau 2013), Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 (Rheoliadau 2016) a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 (y Cod) ynghyd â chanllawiau canolog cysylltiedig; gan gynnwys y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 23 Deddf 2013 (Canllawiau'r Cynllun Sgorio) a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2012 (y Canllawiau Ymarfer). Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau swyddogol ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol. Mae Canllawiau'r Cynllun Sgorio yn cefnogi swyddogion awdurdodedig yng Nghymru wrth weithredu Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Roedd yr archwiliad hefyd yn ystyried cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn erbyn rhannau perthnasol o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (Cytundeb Fframwaith) fel y'i diwygiwyd ym mis Ebrill 2010. Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun, y Cod, Canllawiau'r Cynllun Sgorio a'r Cytundeb Fframwaith, ar gael ar y gwefannau isod:

http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/2/contents/enacted

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2903/contents/made/welsh

https://signin.riams.org/files/display_inline/45532/frameworkagreementno5-18122017.pdf

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf

http://fsa.riams.org/connected/fiHnnafNRk

http://fsa.riams.org/connected/p1xQdXbq0r

Nod yr archwiliad hwn yw gwirio bod rhwymedigaethau awdurdodau lleol o dan y Cynllun yn cael eu bodloni ac i ddarparu sicrwydd bod y Cynllun yn cael ei gynnal yn effeithiol yng Nghymru. Ei nod yw pennu a yw'r Cynllun yn cael ei gymhwyso'n gyson, bod ei hygrededd yn cael ei gynnal a bod ei gynaliadwyedd yn y dyfodol wedi'i warantu. Mae'r broses archwilio hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arferion da a darparu gwybodaeth i hysbysu polisi'r ASB ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r ASB yn ddiolchgar am gydweithrediad a chymorth pob awdurdod lleol, ac yn enwedig eu hymgysylltiad â'r archwiliad a'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt. Hoffai'r ASB hefyd ddiolch i Banel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd am rannu eu barn wrth ddatblygu'r archwiliad hwn.

I’ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad A.

# Cynnwys

**1.0 Cyflwyniad** .................................................. 1

**2.0 Crynodeb Gweithredol** .................................................. 2

**3.0 Methodoleg**……………………………………………………………………...5

**4.0 Canfyddiadau'r Archwiliad**…………………………………………………...6

4.1 Trefniadaeth a Rheolaeth.................................................. 6

4.2 Swyddogion Awdurdodedig.................................................. 9

4.3 Cronfa Ddata/Rheoli Systemau..................................................9

4.4 Arolygiadau/Ymyriadau..................................................11

Gweithdrefnau ..................................................12

Ffurflenni Aide-memoire..................................................17

Sgôr Risg..................................................20

4.5 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu.................................................. 21

Mesurau Diogelu..................................................23

Ailsgorio .................................................. 23

Apelio...... ..................................................25

Hawl i ymateb..................................................27

4.6 Gorfodi.................................................. 28

Rhybuddion Ysgrifenedig..................................................30

Hysbysiadau Cosb Benodedig..................................................30

Rhybuddion Syml..................................................33

Erlyniadau..................................................33

4.7 Hyrwyddo'r Cynllun..................................................34

4.8 Monitro Ymyriadau yn Fewnol..................................................35

**5.0 Casgliadau** ..................................................38

**6.0 Crynodeb o'r Argymhellion**……………………………………………………..…39

**Atodiad A** ..................................................43

Geirfa………………………………………………………………………......43

**Atodiad B** .................................................. 46

Holiadur Archwilio .................................................. 46

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn wreiddiol, cyflwynwyd y Cynllun yn wirfoddol yng Nghymru ym mis Hydref 2010 er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau gwybodus am y mannau hynny sy'n cyflenwi eu bwyd a thrwy'r dewisiadau hyn, annog busnesau i wella eu safonau hylendid. Daeth y Cynllun yn orfodol pan ddaeth y Ddeddf i rym ar 28 Tachwedd 2013. Bwriad y Cynllun yw sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd am y safonau hylendid mewn busnesau bwyd. Caiff sgoriau hylendid bwyd eu pennu yn ystod arolygiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan swyddogion awdurdodedig, i wirio cydymffurfiaeth busnes bwyd â chyfreithiau hylendid bwyd. Mae busnesau bwyd yn cael sgôr sy'n amrywio naill ai 0 (Angen Gwella ar Frys), 1 (Angen Gwella'n Sylweddol), 2 (Angen Gwella), 3 (Boddhaol ar y Cyfan), 4 (Da) neu 5 (Da Iawn) sy'n adlewyrchu'r safonau hylendid a ganfuwyd adeg yr arolygiad.

1.2 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun, sicrhau cydymffurfiaeth busnesau â deddfwriaeth a dyfarnu sgoriau trwy arolygiadau hylendid bwyd rheolaidd. Mae gan awdurdodau lleol a'r ASB rôl allweddol wrth sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n deg ar draws Cymru, er mwyn cynnal hyder defnyddwyr a hygrededd y Cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau archwiliad â ffocws yr ASB o weithrediad y Cynllun gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn cadarnhau bod yr ASB yn cyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir mewn deddfwriaeth a'i hymrwymiad i gefnogi gweithrediad effeithiol a chyson y Cynllun yng Nghymru.

1.3 Mae'r adroddiad hwn ar gael fel copi caled gan Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB, Llawr 11, Ty Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW, Ffôn: 029 2067 8999, ac yn electronig ar wefan yr ASB drwy: https://www.food.gov.uk/cy/arall/archwiliadau-a-ffocws

## 2.0 Crynodeb Gweithredol

2.1 Edrychodd yr archwiliad ar y trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y broses yn cynnwys asesu gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i holiadur safonol a anfonwyd at awdurdodau yn ystod mis Medi 2017. Roedd yn gofyn am ddata penodol am y tair blynedd flaenorol yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun, yn ogystal â pholisïau, gweithdrefnau a dogfennau megis cynlluniau gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

2.2 Darparodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gynllun darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb Fframwaith. Roedd y cynlluniau gwasanaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol oll yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno rhaglen o ymyriadau. Roedd y rhan fwyaf yn targedu pob sefydliad bwyd a oedd yn disgwyl am ymyriad, er nad oedd rhai awdurdodau wedi ymrwymo i gyflawni pob ymyriad a oedd yn ddyledus yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Roedd hyn yn cynnwys pob math o sefydliad a oedd yn disgwyl am ymyriad, ymyriadau mewn sefydliadau newydd ac ymyriadau a oedd yn ddyledus o flynyddoedd blaenorol.

2.3 Roedd pob awdurdod yn gallu dangos bod swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r Cynllun wedi cael hyfforddiant cysondeb. Roedd y mwyafrif o awdurdodau yn gallu dangos bod yr holl staff sy'n ymgymryd â gwaith ar y Cynllun wedi cael hyfforddiant cysondeb o fewn y flwyddyn cyn yr archwiliad.

2.4 Darparwyd gweithdrefnau rheoli cronfa ddata gan y mwyafrif o awdurdodau, ynghyd â threfniadau ar gyfer rheoli'r broses o lanlwytho gwybodaeth sensitif. Nid oedd y gweithdrefnau rheoli cronfa ddata ar gyfer rhai awdurdodau yn ddigonol i ddangos bod cynlluniau wrth gefn wedi'u hystyried.

2.5 Mae'r Cynllun yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cyflwyno ymyriadau yn unol â'r amlder a bennir yn y Cod. Cynhyrchir ymyriadau hylendid bwyd gan gronfeydd data awdurdodau lleol. Roedd dadansoddiad o ddata awdurdodau lleol mewn perthynas â nifer y sefydliadau a oedd yn hwyr yn cael ymyriad yn dangos amrywiad ar draws gwahanol awdurdodau. Mewn dau awdurdod, roedd amrywiad sylweddol mewn perthynas â nifer yr ymyriadau hwyr. Roedd yna amrywiad hefyd ar draws gwahanol awdurdodau yn nifer y sefydliadau heb eu sgorio. Roedd ôl-groniad sylweddol yn nifer y sefydliadau heb eu sgorio o fewn un awdurdod.

2.6 Cyflwynodd yr holl awdurdodau weithdrefnau neu ddeunyddiau ysgrifenedig y maent yn eu defnyddio i weithredu'r Cynllun gyda llawer ohonynt yn defnyddio templedi a ddarperir gan Banel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan i sicrhau cysondeb. Roedd y gweithdrefnau'n cwmpasu ystod o faterion gan gynnwys ymyriadau mewn busnesau newydd eu cofrestru, ailymweliadau a monitro lefel arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd. Mae gofyn gwella rhai o'r gweithdrefnau hyn er mwyn gwella gweithrediad y Cynllun ymhellach yng Nghymru. Roedd awdurdodau lleol Cymru wedi datblygu ffurflenni 'aide-memoire' ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau bwyd er mwyn cofnodi gwybodaeth bwysig sy'n deillio o arolygiadau hylendid bwyd sy'n rhan o'r Cynllun.

2.7 Canfuwyd bod sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyfrifo'n gywir gyda'r sgôr yn cael ei lanlwytho a'i chyhoeddi ar wefan y sgoriau hylendid bwyd. Roedd awdurdodau yn gallu dangos eu bod yn defnyddio adroddiadau arolygu i roi gwybod i fusnesau am eu sgôr, yn y rhan fwyaf o achosion o fewn y terfyn amser statudol o 14 diwrnod ar ôl yr arolygiad.

2.8 Darparodd pob awdurdod wybodaeth i gadarnhau bod busnesau'n cael eu cyfeirio at fesurau diogelu'r Cynllun. Arweiniodd arolygiadau ail-sgorio at well sgôr mewn 94% o achosion. O'r busnesau hynny a apeliodd eu sgôr, pennwyd bod 84% wedi cael y sgôr gywir. Nid oedd y mesur diogelu 'hawl i ymateb' yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn gan weithredwyr busnesau bwyd.

2.9 Amlinellodd pob awdurdod gamau gorfodi i'w cymryd o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â'r Cynllun neu nodi y byddai polisi gorfodi'r awdurdod yn cael ei ystyried. Roedd awdurdodau lleol yn defnyddio'r ystod lawn o gamau gorfodi sydd ar gael i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun. Roedd hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu targedu'n bennaf at sefydliadau â sgôr rhwng 0 a 2. Roedd yr wybodaeth yn awgrymu, yn gyffredinol, fod busnesau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau trwy dalu'r hysbysiadau cosb benodedig. Roedd y busnesau hynny nad oeddent wedi talu, naill ai wedi peidio â masnachu neu wedi cael eu herlyn am beidio ag arddangos sticer dilys gyda dirwy gyfartalog fesul busnes o £407 (ac eithrio costau).

2.10 Roedd yr awdurdodau wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau hyrwyddo gyda ffocws ar achlysuron megis Diwrnod San Ffolant a'r Nadolig. Roedd yr awdurdodau wedi cael mynediad at arian yr ASB a chynnal ymyriadau gan gynnwys hyfforddi busnesau wedi'u targedu, fel sefydliadau gyda sgôr rhwng 0 a 2.

2.11 Yn gyffredinol, darparodd awdurdodau eu gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwiriadau meintiol ac ansoddol ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag

ymyriadau a gynhwysir o fewn y Cynllun. Nodwyd rhai cyfleoedd ar gyfer cynnwys gwiriadau ychwanegol yn y Cynllun.

2.12 Mae'r archwiliad wedi nodi 13 o argymhellion a llawer o enghreifftiau o arferion da mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun yng Nghymru.

## 3.0 Methodoleg

3.1 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn o dan adran 12(4) Deddf Safonau Bwyd 1999, sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr ASB i asesu a monitro perfformiad awdurdodau lleol. Cafodd ei ddatblygu i gyfrannu at y ddyletswydd statudol a roddwyd i'r ASB i gynnal adolygiad o weithrediad y Cynllun bob tair blynedd.

3.2 Roedd yr archwiliad yn astudio'r trefniadau ar gyfer gweithredu a chyflwyno'r Cynllun ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y broses yn cynnwys asesu gwybodaeth a gafwyd mewn ymateb i holiadur safonol, ac mae copi o hwn ar gael yn Atodiad B. Anfonwyd yr holiadur at awdurdodau ym mis Medi 2017 ac roedd yn gofyn am ddata penodol yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun ar gyfer y tair blynedd flaenorol, yn ogystal â pholisïau, gweithdrefnau a dogfennau megis cynlluniau gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd. Defnyddiwyd archwiliad o setiau data penodol a dynnwyd o gronfeydd data sefydliadau bwyd awdurdodau lleol i lywio'r adroddiad. Ni chynhaliwyd unrhyw weithgaredd archwilio neu ymweliadau dilysu ar y safle yn ystod yr archwiliad hwn.

# 4.0 Canfyddiadau’r Archwiliad

## 4.1 Trefniadaeth a Rheolaeth

4.1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth (sy'n rhan o'r Cytundeb Fframwaith) yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio ymyriadau a manylu ar y rhaglen ymyriadau mewn sefydliadau bwyd o fewn cynlluniau gwasanaeth cyfraith bwyd. Dylai hyn gynnwys proffil o'r sefydliadau, nifer yr ymyriadau wedi'u trefnu, amcangyfrifiad o nifer yr ailymweliadau a fydd yn cael eu cynnal, ac amcangyfrifiad o'r adnoddau a fydd eu hangen er enghraifft, staffio. Dylai'r cynllun hefyd fanylu ar unrhyw weithgarwch ymyrryd wedi'i dargedu y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gynnal gan gynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnyn nhw; gallai hyn gynnwys gwaith prosiect penodol.

4.1.2 Dylai'r awdurdod nodi unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol neu leol, fel cydymffurfio â deddfwriaeth newydd neu well cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth bresennol a mentrau llywodraeth ganolog eraill.

4.1.3 Adolygodd yr archwiliad hwn 19 o gynlluniau darparu gwasanaethau cyfraith bwyd ar gyfer 2017-18 ac un cynllun gwasanaeth diogelu'r cyhoedd, yn benodol i asesu lefel yr ymrwymiad a roddwyd i'r Cynllun. Ni wnaeth dau awdurdod lleol ddarparu unrhyw gynlluniau gwasanaeth fel rhan o'r cyflwyniad archwilio. Cyfeiriodd 11 awdurdod lleol yn benodol at y Cynllun yn nodau ac amcanion eu gwasanaeth, gan nodi ymrwymiad penodol i gynnal y Cynllun. Mewn saith awdurdod lleol cyfeiriwyd at y Cynllun yn eu Cynlluniau Busnes Corfforaethol, Strategol neu lefel uwch. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd y Cynllun ar lefel uwch o fewn y sefydliad. Roedd nodau ac amcanion pob cynllun gwasanaeth a gyflwynwyd yn nodi ymrwymiad gan yr awdurdodau lleol i ddiogelu defnyddwyr rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd pob un o'r 20 awdurdod lleol a ddarparodd gynllun gwasanaeth wedi nodi eu hymrwymiad i gyflwyno rhaglen o ymyriadau. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys gweithredu a chyflwyno'r Cynllun.

4.1.4 Roedd 16 awdurdod naill ai wedi cynnwys gwybodaeth am eu gweithgareddau i hyrwyddo'r Cynllun, wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Cynllun neu wedi cynnwys gwybodaeth am y ddau o fewn eu cynllun gwasanaeth.

4.1.5 Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau gwasanaeth yn cynnwys manylion ymyriadau hylendid bwyd sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn i ddod. Cafodd y rhain eu dadansoddi yn ôl eu categorïau sgorio risg.

**Tabl 1 – Amlderau isaf ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd yn ôl categori sgorio risg**

| Categori | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|
| **A** | Bob 6 mis ar y lleiaf |
| **B** | Bob 12 mis ar y lleiaf |
| **C** | Bob 18 mis ar y lleiaf |
| **D** | Bob 24 mis ar y lleiaf |
| **E** | Rhaglen o strategaethau neu ymyriadau gorfodi amgen bob tair blynedd |

4.1.6 Mae'r math o ymyriad sy'n ofynnol gan y Cod yn amrywio, gan ddibynnu ar y categori risg a pha ymyriad a gynhaliwyd yn flaenorol ym mhob sefydliad.

4.1.7 Caiff sefydliadau sy'n peri risg uwch eu harchwilio'n amlach na sefydliadau sy'n peri risg is. Rhwng arolygiadau, gall awdurdodau lleol hefyd fonitro busnesau mewn ffyrdd eraill i sicrhau eu bod yn cynnal safonau hylendid. Pan fo'r ymyriad gofynnol yn arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, gellir sgorio'r busnes yn unol â'r Cynllun; ar yr amod bod digon o wybodaeth wedi'i chasglu. Ni fydd ymyriadau eraill yn golygu rhoi sgôr newydd dan y Cynllun. Os yw'r ymyriadau eraill hyn yn datgelu unrhyw beth a allai ddangos bod gweithgarwch y busnes wedi newid, mae gofyn i'r awdurdod lleol gynnal arolygiad o'r sefydliad a rhoi sgôr hylendid newydd iddo. Fel arall, os daw cwyn neu wybodaeth newydd am fusnes i law'r awdurdod lleol nad ydynt wedi bwriadu ei arolygu, ac mae hyn yn awgrymu nad yw safonau hylendid yn cael eu cynnal, bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i hynny ac fe all arolygu'r busnes i roi sgôr hylendid newydd iddo.

4.1.8 Y bwriad gyda'r rhan fwyaf o raglenni ymyrryd blynyddol yw targedu pob sefydliad bwyd sy'n disgwyl am ymyriad. Nid oedd un awdurdod wedi cynnwys ymyriadau hylendid bwyd dyledus o fewn ei gynllun gwasanaeth, ac roedd rhai awdurdodau wedi ymrwymo i gynnal pob ymyriad dyledus yn unol â'r Cod. O'r rhain, nid oedd pum awdurdod yn bwriadu cynnal pob ymyriad dyledus mewn sefydliadau risg uchel tra bod un awdurdod arall yn bwriadu cynnal ymyriadau risg uchel ac is o fewn pob chwarter yn y

flwyddyn, yn hytrach nag o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad dyledus fel mae'r Cod yn ei fynnu. Gall hyn olygu nad yw rhai sefydliadau yn cael sgôr hylendid bwyd amserol o dan y Cynllun. Nododd adolygiad 2018 fod sgorio busnes bwyd yn amserol yn bwysig i ddefnyddwyr.

4.1.9 O ran sefydliadau risg is, roedd 16 awdurdod wedi ymrwymo yn eu cynlluniau gwasanaeth i ddarparu pob ymyriad a fyddai'n ddyledus. Nid oedd pedwar awdurdod wedi cynnwys pob ymyriad dyledus. Lle na gynhelir ymyriadau ac eithrio arolygiadau yn unol â'r amlderau gofynnol, ni fydd newidiadau mewn gweithgareddau busnes a allai arwain at arolygiad yn cael eu nodi ac ni fydd sgoriau yn cael eu dyfarnu yn ôl yr angen.

4.1.10 Roedd 17 o awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth yn eu rhaglenni ar nifer y sefydliadau heb eu sgorio a oedd yn disgwyl am ymyriad ac roedd 11 o'r rhain wedi ymrwymo i flaenoriaethu ymyriad yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Nid oedd un awdurdod wedi nodi a oedd nifer y sefydliadau heb eu sgorio yn y rhaglen ymyrryd yn cynnwys amcangyfrifiad o nifer y sefydliadau newydd posibl. Nid oedd dau awdurdod wedi cynnwys nifer y sefydliadau newydd a oedd angen ymyriad yn eu cynlluniau gwasanaeth. Os na chaiff sefydliadau newydd eu harolygu yn unol â'r Cod, ni fydd sgoriau'n cael eu dyfarnu yn ôl yr angen.

4.1.11 O'r 20 awdurdod lleol a gyflwynodd gynlluniau gwasanaeth, roedd naw wedi cynnwys ymrwymiad i gynnal ymyriadau a oedd yn weddill o raglenni'r blynyddoedd blaenorol. Roedd chwech o'r awdurdodau hynny wedi darparu gwybodaeth am niferoedd a chategorïau risg yr ymyriadau a oedd yn weddill. Mewn 11 cynllun gwasanaeth, ni ddarparwyd digon o wybodaeth am sut yr oedd yr awdurdodau yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl ymyriadau a oedd yn weddill. Mae'n bwysig bod awdurdodau yn mynd i'r afael ag ymyriadau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau bod y sgôr hylendid bwyd yn cael ei diweddaru.

***Argymhelliad 1***

Dylai awdurdodau lleol gynnwys yn eu rhaglenni ymyrryd blynyddol, ymrwymiad i gynnal pob ymyriad sy'n weddill yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), amcangyfrifiad o nifer y busnesau newydd sydd angen arolygiad sgorio cyntaf yn ystod y flwyddyn a chynnwys nifer yr holl ymyriadau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol. [Y Safon – 3.1]

## 4.2 Swyddogion Awdurdodedig

4.2.1 Caiff sgoriau hylendid bwyd eu pennu yn ystod arolygiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan swyddogion awdurdodedig, i wirio cydymffurfiaeth busnes bwyd â chyfreithiau hylendid bwyd. Mae swyddogion awdurdodedig a chymwys yn hanfodol i weithrediad cyson y Cynllun. Maent yn hanfodol i uniondeb y Cynllun trwy sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn gyson, yn deg ac yn gyfartal. Drwy ddyrannu sgoriau teg a phriodol yn gyson, mae swyddogion awdurdodedig yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud cymariaethau ystyrlon o sgoriau hylendid ar gyfer sefydliadau yn eu hardal leol a ledled Cymru.

4.2.2 Mewn 14 o'r 21 awdurdod a ddarparodd wybodaeth, roedd yr holl staff a oedd yn gweithio ar y Cynllun wedi cael hyfforddiant cysondeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y saith awdurdod sy'n weddill, tra bod y mwyafrif o swyddogion wedi cael hyfforddiant cysondeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd o leiaf un swyddog nad oedd wedi cael hyfforddiant o'r fath yn ystod y cyfnod hwn. Yn un o’r awdurdodau hyn, roedd hyn yn ymwneud â swyddog a oedd newydd ei benodi yn unig. Mewn dau o’r awdurdodau hyn, roedd swyddogion nad oedd wedi cael hyfforddiant cysondeb o fewn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys contractwyr. Mae'n bwysig bod yr holl swyddogion sy'n dyfarnu sgoriau o dan y Cynllun yn cael hyfforddiant cysondeb rheolaidd. Roedd adolygiad 2018 yn argymell y dylai'r ASB barhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb. Mae'r ASB yn cydlynu ac yn ariannu ymarfer cysondeb cenedlaethol blynyddol a hwylusir gan Gyngor Sir Powys.

## 4.3 Cronfa Ddata/Rheoli Systemau

4.3.1 Mae hygrededd a gonestrwydd y Cynllun yn dibynnu ar wybodaeth sgorio hylendid bwyd gyfoes a chywir sydd ar gael i ddefnyddwyr. Mae trosglwyddo data awdurdodau lleol yn rheolaidd i'r gronfa ddata genedlaethol a chyhoeddi sgoriau amserol drwy food.gov.uk/sgoriau yn allweddol i hyn. Mae rheoli cronfa ddata effeithiol felly'n hanfodol wrth hwyluso'r broses o lanlwytho gwybodaeth gywir am y Cynllun i'r ASB a sicrhau cywirdeb y data a gyhoeddir. Nid oedd data a gwybodaeth arall yn ymwneud â mesurau diogelu a chamau gorfodi bob amser yn cael eu darparu fel y gofynnwyd amdanynt yn yr holiadur archwilio.

4.3.2 Mae'n ofynnol i awdurdodau sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig i sicrhau bod eu cronfa ddata safleoedd bwyd yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfoes. Mae awdurdodau yn cynnal eu cronfeydd data trwy ystod o becynnau meddalwedd ac mewn rhai achosion, llwyfannau ar y we. Roedd y mwyafrif o awdurdodau yn darparu gweithdrefnau ar reoli cronfa ddata, ond roedd y broses o'u rheoli a'u monitro yn amrywio. Nid oedd y gweithdrefnau rheoli cronfa ddata ar gyfer chwe awdurdod yn ddigonol i ddangos bod systemau a gweithdrefnau wrth gefn wedi'u hystyried. Roedd pedwar awdurdod arall wedi mynd i'r afael â systemau a gweithdrefnau wrth gefn yn rhannol.

4.3.3 Mae gan yr ASB drefniadau awtomatig ar gyfer cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar-lein drwy www.food.gov.uk/sgoriau. Mae'r rhain yn cynnwys llwyfan TG, sy'n cynnwys cronfa ddata ganolog ar gyfer storio data ar sefydliadau busnes bwyd a lanlwythir gan awdurdodau lleol; porth sy'n galluogi awdurdodau lleol i adolygu a dilysu ei ddata a lanlwytho gwybodaeth nad yw wedi'i chasglu yn y prosesau awtomatig, gwefan ar gyfer defnyddwyr a chyfleuster adrodd sy'n caniatáu cynhyrchu adroddiadau rheoli.

4.3.4 Mae canllawiau'r Cynllun Sgorio yn nodi, fel isafswm, rhaid i awdurdod lanlwytho data unwaith bob 28 diwrnod. Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau gyfarwyddiadau, canllawiau neu weithdrefn gofnodedig sy'n cyfeirio at yr amlder lanlwytho. Roedd rhai yn cyfeirio swyddogion at ddogfen yr ASB sy'n cynnwys cyngor ar ddefnyddio'r llwyfan TG. Nid oedd dau awdurdod wedi cofnodi'r gofyniad. Ni chyflwynodd tri awdurdod weithdrefn yn ymwneud ag amlder lanlwytho data.

4.3.5 Dim ond data'r busnesau hynny sydd o fewn cwmpas y Cynllun y dylid eu lanlwytho. Felly, rhaid rheoli'r broses o lanlwytho data er mwyn sicrhau mai dim ond data priodol a gynhwysir ac nad yw gwybodaeth sensitif yn cael ei lanlwytho. Roedd gan 21 o awdurdodau lleol gyfarwyddiadau, canllawiau neu weithdrefn gofnodedig a oedd yn pennu trefniadau ar gyfer rheoli'r broses o lanlwytho gwybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cynnwys trefniadau cwmpasu yn ogystal â lanlwytho manylion sensitif. Mewn rhai achosion, roedd y gweithdrefnau'n cynnwys y broses lanlwytho.

***Argymhelliad 2***

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu systemau wrth gefn priodol ar gyfer unrhyw gronfeydd data electronig, a systemau neu weithdrefnau cofnodedig sydd wedi'u dylunio i leihau'r perygl o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwir ar eu cronfeydd data. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod mesurau diogelwch rhesymol ar waith i atal mynediad a diwygiadau gan bobl anawdurdodedig. [Y Safon – 6.4]

***Argymhelliad 3***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff eu cronfeydd data eu gweithredu mewn ffordd sy'n golygu y gallant ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB. Dylai gweithdrefnau gynnwys gofyniad i lanlwytho sgoriau'r Cynllun o fewn y cyfnod amser penodedig ac osgoi lanlwytho gwybodaeth sensitif. Dylai cronfeydd data gofnodi gwybodaeth am y cynllun mewn perthynas â mesurau diogelu a gorfodi; gan gynnwys unrhyw arolygiadau ailsgorio a dyddiadau'r holl gamau a gymerwyd. [Y Safon - 6.3]

## 4.4 Arolygiadau/Ymyriadau

4.4.1 Mae'r Cynllun yn dibynnu ar awdurdodau lleol sy'n gallu cyflwyno ymyriadau yn unol â'r amlder a bennir yn y Cod.

4.4.2 Roedd yn bosibl dadansoddi cronfeydd data 20 o awdurdodau lleol mewn perthynas â niferoedd y sefydliadau a oedd yn hwyr yn cael ymyriad. Roedd pum awdurdod lleol wedi cwblhau bron pob un o'u holl ymyriadau dyledus, gan nodi bod eu rhaglenni ymyrryd yn unol â'r Cod i raddau helaeth. Roedd natur a graddfa ymyriadau hwyr mewn 13 awdurdod arall yn nodi ei fod o fewn gallu pob un o'r awdurdodau lleol hyn i weithredu eu rhaglenni ymyrryd yn ôl yr angen. Dangosodd graddfa'r ymyriadau hwyr yn y ddau awdurdod sy'n weddill amrywiad sylweddol o ran gweithredu eu rhaglenni ymyrryd yn unol â'r Cod.

4.4.3 Bydd sefydliad yn parhau i fod heb ei sgorio wrth ddisgwyl am ei arolygiad cyntaf. Roedd pob un awdurdod lleol ond un wedi darparu gwybodaeth am y sefydliadau nad oedd wedi'u sgorio yn eu hardaloedd. Fel arfer, dylid

cwblhau’r arolygiadau cychwynnol cyn pen 28 diwrnod ar ôl i’r sefydliad gofrestru neu ar ôl i’r awdurdod ddod i wybod bod y sefydliad yn gweithredu. Lle mae gwrthdaro adnoddau gyda gweithgareddau blaenoriaeth uchel eraill, dylid blaenoriaethu ymyriadau yn seiliedig ar risg. Nid oedd gan un awdurdod lleol unrhyw sefydliadau heb eu sgorio, tra bod nifer y sefydliadau heb eu sgorio o fewn 19 o awdurdodau lleol yn nodi bod busnesau newydd yn cael eu rheoli ochr yn ochr â'r rhaglen ymyrryd ehangach. Dangosodd nifer y sefydliadau heb eu sgorio o fewn un awdurdod ôl-groniad sylweddol. Roedd mwyafrif y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn rhan o baratoi, coginio neu drin bwyd agored risg uchel, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r math o sefydliad.

4.4.4 Cynhyrchir ymyriadau hylendid bwyd gan gronfeydd data awdurdodau lleol a'u hamserlennu yn ôl yr amlder a ragnodir yn y Cod. Lle mae gwallau cyfrifo'n digwydd, gallai hyn arwain at ymyriadau'n cael eu cynnal ar yr amlder anghywir. Dadansoddwyd data o 19 o awdurdodau lleol i benderfynu a oedd y cyfrifiad o ddyddiadau'r ymyriad dyledus yn fwy na'r hyn a ganiateir gan y Cod. Roedd dau awdurdod wedi cyfrifo eu holl ddyddiadau ymyrryd dyledus yn gywir, ond mewn 15 awdurdod arall, canfuwyd bod bron pob dyddiad ymyrryd bron yn gywir. Yn y ddau awdurdod sy'n weddill ystyriwyd bod natur a graddfa'r gwallau cyfrifo o fewn gallu'r awdurdodau hynny i ganfod a datrys.

***Argymhelliad 4***

Dylai awdurdodau lleol gynnal ymyriadau/arolygiadau ym mhob sefydliad bwyd yn eu hardaloedd, ar amlder nad yw'n llai na'r hyn a bennir o dan y cynlluniau sgorio ymyriadau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

## Gweithdrefnau

4.4.5 Cyflwynodd pob awdurdod y gweithdrefnau neu'r deunyddiau ysgrifenedig y maent yn eu defnyddio i weithredu'r Cynllun. Cadarnhaodd pob awdurdod fod busnesau newydd yn cael gwybodaeth am y Cynllun. Nododd 10 awdurdod fod yr wybodaeth yn cael ei rhannu â busnesau newydd o fewn 14 diwrnod yn unol â chanllawiau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Mae sawl awdurdod yn anfon taflen gyngor i fusnesau newydd 'Mae'n dod yn haws adnabod hylendid bwyd da yng Nghymru’.

4.4.6 Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol at flaenoriaethu busnesau sydd newydd eu cofrestru, fel sy'n ofynnol gan y Cod, yn eu gweithdrefnau cofnodedig. Roedd y rhain yn sicrhau bod busnesau risg uwch, gan gynnwys y rheiny o fewn cwmpas y Cynllun, yn cael eu harolygu yn gyntaf. Nododd tri awdurdod lleol ddull o flaenoriaethu risg ymhlith sefydliadau heb eu sgorio.

***Arfer da***

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn blaenoriaethu arolygiadau o safleoedd heb sgôr gan ddefnyddio system godio coch, oren a gwyrdd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio asesiad risg bwrdd gwaith yn seiliedig ar ddefnydd o’r safle, tra bo Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion yn mewnbynnu asesiad risg ar gyfer safleoedd heb sgôr ar daenlen safleoedd heb sgôr.

4.4.7 Caiff sefydliadau Categori E eu hystyried i beri risg isel. Nid oes angen cynnwys y rhain yn y rhaglen arolygu a gynllunnir. Fodd bynnag, os na chânt eu cynnwys, rhaid iddynt fod yn destun strategaeth orfodi amgen (AES) o leiaf unwaith bob 3 blynedd. Ni ellir dyfarnu sgôr hylendid bwyd o ganlyniad i AES.

4.4.8 Darparwyd gweithdrefnau AES gan 16 o awdurdodau lleol, ac roedd 12 ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y Cynllun. Roedd rhai gweithdrefnau AES yn nodi na ellir dyfarnu sgôr o ganlyniad i AES. Mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio holiadur hunanasesu ac mae dulliau eraill yn cynnwys gofyn i fusnesau lenwi ffurflen gofrestru newydd sy'n cael ei hadolygu wedyn, tra bo eraill yn cwblhau ffurflen wirio arolygu safle risg isel. Mae rhai awdurdodau lleol yn blaenoriaethu sefydliadau risg isel o fewn cwmpas y Cynllun i'w harolygu.

4.4.9 Pan fo gwybodaeth newydd yn dod i law, er enghraifft, yn achos cwyn wedi'i chyfiawnhau neu ganlyniad samplu anfoddhaol, byddai angen ystyried adolygu'r math o ymyriad a'r sgôr yn unol â gofynion y Cod. Roedd saith awdurdod lleol wedi nodi'r angen i ystyried yr adolygiadau hyn yn eu gweithdrefnau cofnodedig.

4.4.10 Mewn perthynas â sefydliadau symudol, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol lle caiff y busnes bwyd ei gadw dros nos fel arfer ('yr awdurdod cofrestru') yw pennu'r sgôr hylendid bwyd. Pan fo sefydliad yn masnachu y tu allan i ardal yr awdurdod cofrestru, bydd angen i'r awdurdod arolygu a chofrestru gadw mewn cysylltiad agos a rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r sefydliad.

4.4.11 Yn gyffredinol, cyflwynodd awdurdodau lleol wybodaeth a oedd yn nodi eu bod yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth mewn perthynas â sefydliadau symudol rhwng awdurdodau lleol. Gwnaeth rhai awdurdodau lleol ddefnydd o baragraffau safonol a ffurflenni aide-memoire i gasglu gwybodaeth briodol megis enw'r awdurdod cofrestru. Roedd 16 o awdurdodau lleol wedi manylu'n benodol yn eu gweithdrefnau y dylid anfon copïau o'r adroddiadau arolygu i'r awdurdod cofrestru i'w cynorthwyo â phennu sgôr briodol. Hefyd, nododd y gweithdrefnau hyn, pan fo busnesau wedi'u cofrestru gydag awdurdod lleol ond eu bod yn gweithredu y tu allan i'r ardal, dylid ystyried adroddiadau arolygu a gyhoeddir gan awdurdodau lleol eraill wrth roi sgôr.

4.4.12 Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn manylu ar yr amserlen o 14 diwrnod ar gyfer anfon llythyrau arolygu, gan gynnwys sgoriau, a oedd yn unol â gofynion y Cynllun ym mhob achos. Fodd bynnag, roedd dau awdurdod lleol yn gweithredu gweithdrefn ymyrryd a oedd yn gwrthdaro â'u gweithdrefn CSHB o ran amserlenni ar gyfer anfon llythyrau arolygu.

4.4.13 Cyfeiriwyd at gyfathrebu'r sgôr i'r busnes yn achos gweithrediadau aml-safle o fewn gweithdrefnau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan 11 o awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau bod adroddiadau arolygu'n dilyn y gwasanaeth cyfreithiol cywir a bod gwybodaeth am y Cynllun yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad busnes cywir, mae'n hanfodol sicrhau bod yr adroddiadau yn cael eu cyfeirio at gyfeiriad y busnes neu'r cwmni cofrestredig priodol. Pan fo hyn yn wahanol i'r sefydliad lleol, bydd hefyd angen anfon yr adroddiad a'r wybodaeth, ynghyd â'r nifer priodol o sticeri sgorio i gyfeiriad y sefydliad lleol.

4.4.14 Rhoddodd sawl awdurdod dystiolaeth o baragraffau safonol a ddatblygwyd i'w defnyddio mewn llythyrau arolygu wrth ddelio â gweithrediadau aml-safle. Er bod rhai gweithdrefnau yn gywir yn atgoffa swyddogion y dylid anfon sticeri sgorio i'r safle a arolygwyd yn hytrach na'r brif swyddfa, gellid gwella'r geiriad o fewn rhai gweithdrefnau cofnodedig trwy dynnu sylw at bwysigrwydd anfon canfyddiadau i leoliad swyddfa cofrestredig y busnes neu'r cwmni lle bo'n briodol.

4.4.15 Os yw'r awdurdod lleol hefyd yn weithredwr busnes bwyd, mae'n ofynnol rhoi'r hysbysiad i'r swyddog priodol o fewn yr awdurdod yn ogystal ag anfon yr hysbysiadau a'r sticeri i'r sefydliad. Roedd pump awdurdod lleol wedi darparu eu trefniadau cofnodedig ar gyfer hysbysu'r swyddog priodol gan ddefnyddio ei enw a/neu ei swydd o fewn yr awdurdod, mewn achosion lle oedd yr awdurdod lleol yn weithredwr busnes bwyd.

4.4.16 Darperir gwybodaeth i ddefnyddwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod sefydliadau sydd â sgôr hylendid 3 neu uwch yn cydymffurfio i raddau helaeth. Mae hyn

yn golygu bod y safonau hylendid bwyd yn foddhaol ar y cyfan, yn dda neu’n dda iawn. Mae disgwyliad ymhlith defnyddwyr y bydd sefydliadau sydd â sgôr 0 - 2 yn wynebu camau dilynol i sicrhau gwelliannau mewn modd amserol. Mewn sefyllfaoedd lle mae risg ar fin digwydd i iechyd y cyhoedd, mae'n ofynnol i fusnesau roi'r gorau i fasnachu hyd nes bydd y swyddog awdurdodedig yn fodlon nad yw’r risg i iechyd yn bodoli bellach.

4.4.17 Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull cyson o ran yr amserlenni hiraf a ganiateir ar gyfer ailymweliadau mewn safleoedd â sgôr 0-2. Darparodd 14 o awdurdodau lleol weithdrefnau cofnodedig a oedd yn nodi bod sefydliadau â sgôr '0' yn cael ailymweliad o fewn 28 diwrnod ac y byddai'r sefydliadau hynny â sgôr '1' neu '2' yn cael ailymweliad o fewn tri mis. Pwysleisiwyd yng ngweithdrefnau rhai awdurdodau lleol, pan fo pryder mawr yn ymwneud â glendid gwael er enghraifft, byddai amserlen fyrrach yn fwy priodol.

4.4.18 Nodwyd amserlen ailymweld i wirio cydymffurfiaeth lawn o fewn gweithdrefnau'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Pan fo adroddiad arolygu yn dangos mwy nag un achos o dramgwyddo, mae angen amserlenni sy'n benodol i bob tramgwydd. Bydd hyn yn galluogi perchennog y busnes i flaenoriaethu a sicrhau gwelliannau mewn modd amserol.

4.4.19 Roedd gan bob awdurdod drefniadau cofnodedig ar waith i sicrhau cysondeb wrth roi’r Cynllun ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid, gan gynnwys Panel Arbenigol ar Ddiogelwch Bwyd Cymru Gyfan a Grŵp Llywio CSHB Cymru Gyfan. Trafodir cysondeb wrth weithredu'r Cynllun yn y grwpiau hyn a chaiff gwybodaeth ei rhannu â phartïon perthnasol. Roedd nifer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu, yn rhan o'u gweithdrefnau, ddogfen gyfarwyddo gyffredinol y CSHB, a baratowyd gan Banel Arbenigol ar Ddiogelwch Bwyd Cymru Gyfan fel ffordd o sicrhau sgoriau cyson ledled Cymru. Mae llawer wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddiant cysondeb Cymru Gyfan a sefydlwyd ac a hwyluswyd gan Gyngor Sir Powys. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cyfeiriad at gynnwys dogfen lywio gyffredinol CSHB Cymru Gyfan.

4.4.20 Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau bwyd arddangos sgoriau mewn man amlwg. Mae'n bwysig i hygrededd y Cynllun fod swyddogion awdurdodedig yn mynd ati'n gyson i ddehongli 'arddangos mewn man amlwg'. Roedd naw awdurdod lleol wedi darparu canllawiau cyfyngedig ar arddangos mewn man amlwg yn eu gweithdrefnau, eu templedi adrodd neu ar eu rhestrau gwirio arolygu. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt wedi cynnwys cyngor cynhwysfawr i swyddogion o fewn eu gweithdrefnau.

***Arfer da***

Roedd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi mabwysiadu'r drefn o gytuno ar y mannau arddangos gyda busnesau, ac wedi cofnodi'r penderfyniadau hyn.

4.4.21 Roedd gan wyth awdurdod lleol weithdrefn gofnodedig a oedd yn ei gwneud hi’n ofynnol cynnal gwiriadau arddangos sgoriau. Mewn pedwar achos, dim ond ymweliadau ailsgorio oedd pwrpas y gwiriadau hyn. Roedd un awdurdod lleol hefyd wedi manylu'r angen i wirio'r man lle caiff sticer sgorio ei arddangos yn ystod ymweliadau adweithiol eraill. Roedd saith awdurdod lleol arall wedi cyflwyno gwybodaeth a oedd yn nodi eu bod yn cynnal gweithgareddau monitro yn ystod amrywiaeth o ymyriadau. Nid oedd y cyfarwyddyd i wirio'r man lle caiff sticer sgorio ei arddangos yn ystod yr ymyriadau hynny wedi'i gofnodi yn nhrefniadau'r awdurdodau lleol.

***Arfer da***

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwirio'r man lle caiff sticer sgorio ei arddangos ar gyfer safleoedd â sgôr 0 - 2 yn rhan o'u gweithdrefnau. Cyfeiriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful at weithgarwch arall a dargedwyd, gan gynnwys monitro y tu allan i'r oriau gwaith arferol.

4.4.22 Roedd un awdurdod lleol wedi rhoi cyngor i swyddogion ar arddangos sticeri mewn sefydliad lle'r oedd mwy nag un gweithredwr busnes bwyd.

4.4.23 Roedd saith awdurdod lleol wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion wirio bod sticeri sgorio a gyflwynwyd yn flaenorol wedi'u tynnu i lawr. Yn benodol, roedd un awdurdod yn cynnwys cyfarwyddyd i swyddogion dynnu sticeri sy'n perthyn i'r hen fusnes wrth arolygu busnesau newydd. Nid oedd yr 14 o awdurdodau lleol a oedd yn weddill wedi cynnwys cyfarwyddiadau yn ymwneud â gwirio a chael gwared ar hen sticeri yn eu gweithdrefnau, ond roedd pedwar o'r rhain wedi dweud eu bod yn gwneud hynny fel arfer yn ystod ymweliadau.

***Argymhelliad 5***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gweithdrefnau cofnodedig yn cyflawni’r canlynol:

- Nodi'r dull y maent yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu risg ymhlith safleoedd heb sgôr er mwyn sicrhau bod busnesau risg uwch, gan gynnwys y rheiny o fewn cylch gwaith y Cynllun, yn cael eu harolygu yn gyntaf.

- Nodi y dylid ystyried adolygu'r math o ymyriad a'r sgôr pan fydd gwybodaeth newydd yn dod i law.

- Nodi, mewn perthynas â busnesau aml-safle, y dylid darparu adroddiadau i'r gweithredwr busnes bwyd ac anfon copi i'r safle lleol lle bo hynny'n briodol.

- Cynnwys cyfarwyddiadau i wirio bod sticeri sgorio dilys yn cael eu harddangos ac i sicrhau bod sticeri yn cael eu tynnu i lawr lle nad ydynt yn ddilys.

- Cynnwys cyngor i swyddogion mewn perthynas ag arddangos sticeri sgorio mewn man amlwg ac i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal ym mhob mynedfa ac ym mhob lleoliad perthnasol lle mae nifer o fusnesau'n gweithredu o un sefydliad.
[Y Safon – 7.4]

## Ffurflenni Aide-Memoire

4.4.24 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi datblygu ffurflenni aide-memoire ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau bwyd gan gynnwys arlwywyr, busnesau risg isel a sefydliadau cymeradwy i gynorthwyo swyddogion i gofnodi a chrynhoi canfyddiadau allweddol yn gyson.

4.4.25 Cyflwynwyd y rhain, i'w defnyddio wrth arolygu busnesau fel arlwywyr sy'n paratoi bwyd risg uchel, gan 21 o awdurdodau lleol. Roedd 20 o'r rheiny wedi nodi dull o gasglu gwybodaeth am arddangos y sgôr CSHB. Er bod rhai ffurflenni aide-memoire wedi cofnodi ateb 'ydy' neu 'nac ydy' syml ar gyfer arddangos y sgôr bresennol, roedd eraill yn neilltuo gofod i gofnodi pan nad oedd busnes yn rhan o'r cynllun a bod sticeri'n cael eu harddangos mewn man amlwg. Mae rhai ffurflenni’n casglu gwybodaeth yn ymwneud ag arddangos sticeri dilys (sydd â logo Llywodraeth Cymru), gan neilltuo gofod i

gofnodi lleoliad sticeri (i gadarnhau eu bod yn cael eu harddangos mewn man amlwg) a gofod i gofnodi unrhyw gamau sydd angen eu cymryd. Gallai hyn gynnwys cael gwared ar y sticer CSHB presennol, er enghraifft, os oedd y busnes wedi newid perchnogaeth ers yr arolygiad blaenorol.

***Arfer da***

Roedd pedwar awdurdod lleol (Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) wedi cynnwys y lleoliadau a gytunwyd arnynt ar gyfer sticeri CSHB neu wedi neilltuo gofod i gofnodi trafodaethau ar leoliad y sticer CSHB fel rhan o'r aide-memoire i fusnesau sy'n paratoi bwyd risg uchel.

4.4.26 Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau bwyd ddangos sgoriau ym mhob mynedfa gyhoeddus. Roedd un awdurdod lleol yn cynnwys nodyn atgoffa penodol ar ffurflen aide-memoire ategol ar gyfer arddangos sticer y CSHB i wirio'r man lle caiff y sticer sgorio ei arddangos ym mhob mynedfa. Nid oedd yr awdurdodau lleol a oedd yn weddill wedi cynnwys unrhyw gyfarwyddyd cofnodedig i'w swyddogion wirio'r man y caiff y sticer sgorio ei arddangos ym mhob mynedfa.

***Arfer da***

Mae ffurflen aide-memoire ategol ar gyfer arddangos sticer y CSHB a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn annog swyddogion i gofnodi'r man y caiff y sticer sgorio ei arddangos ym mhob mynedfa gwsmeriaid i sefydliad busnes bwyd.

4.4.27 Cafodd gwybodaeth am nifer y mynedfeydd cyhoeddus neu nifer y sticeri y gofynnwyd amdanynt gan y busnes, ei nodi ar 15 aide-memoire. Neilltuodd 18 aide-memoire ofod i gofnodi'r sgôr CSHB newydd yn dilyn arolygiad.

***Arfer da***

Roedd yr aide-memoire a ddarparwyd gan Gyngor Sir Dinbych yn nodi'n benodol nifer y sticeri wal a ffenestr sydd eu hangen sy'n cynorthwyo i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio.

4.4.28 Roedd Rheoliadau 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheiny sy'n darparu bwyd tecawê gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd. Roedd 16 o awdurdodau lleol a oedd wedi darparu ffurflenni aide-memoire i'w defnyddio wrth arolygu busnesau o'r fath yn cyfeirio rhywfaint at ddeunyddiau cyhoeddusrwydd. Cyfeiriodd rhai o'r rhain yn benodol at fwydlenni, gan nodi'r geiriad sydd ei angen er mwyn galluogi swyddogion i wirio cywirdeb unrhyw ddatganiad wrth ymweld â'r busnes.

***Arfer da***

Roedd aide-memoire Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys neges atgoffa i wirio bod y sgôr hylendid bwyd gywir wedi'i harddangos ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd eraill gan gynnwys sgriniau teledu a phosteri.

4.4.29 Darparodd 11 o awdurdodau lleol aide-memoire a ddefnyddiwyd wrth arolygu sefydliadau bwyd risg is. Roedd tri o'r rhain ar gyfer busnesau bwyd risg isel yn cynnwys nodyn atgoffa i swyddogion gofnodi'r sgôr CSHB gyfredol, roedd pump yn cynnwys gofod i gofnodi'r sgôr CSHB newydd ac roedd pedwar yn cynnwys nodyn atgoffa i gofnodi gwybodaeth am y man lle caiff y sgôr ei harddangos. Roedd chwech aide-memoire ar gyfer busnesau bwyd risg isel yn cynnwys nodyn atgoffa i gasglu gwybodaeth am fynedfeydd cyhoeddus neu nifer y sticeri y gofynnwyd amdanynt gan y busnes.

4.4.30 Roedd tri awdurdod lleol wedi darparu aide-memoire a ddefnyddiwyd wrth arolygu sefydliadau cymeradwy. Nid oedd yr un o'r rhain yn cynnwys gofod i gofnodi'r sgôr CSHB bresennol, fodd bynnag, roedd dau yn cynnwys gofod i gofnodi'r sgôr newydd. Roedd un yn atgoffa swyddogion i gasglu gwybodaeth am y man y caiff y sgôr CSHB ei harddangos ac roedd un yn atgoffa swyddogion i gofnodi nifer y mynedfeydd cyhoeddus neu nifer y sticeri y gofynnwyd amdanynt gan y busnes.

***Argymhelliad 6***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni aide-memoire yn cynnwys negeseuon atgoffa i wirio bod sticeri sgorio dilys yn cael eu harddangos yn iawn a sicrhau bod sticeri yn cael eu tynnu i lawr lle nad ydynt yn ddilys. Ymhellach, dylent gynnwys nodiadau atgoffa i swyddogion mewn perthynas ag arddangos sticeri mewn man amlwg ac i sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal ym mhob mynedfa ac ym mhob lleoliad perthnasol, gan gynnwys lle mae nifer o fusnesau'n gweithredu o un sefydliad. Dylai awdurdodau lleol hefyd adolygu eu ffurflenni aide-memoire i sicrhau bod holl ofynion y Cynllun mewn perthynas â deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cael eu cynnwys yn ddigonol. [Y Safon - 7.4]

## Sgôr risg

4.4.31 Mae sefydliadau'n cael sgôr risg yn unol ag Atodiad 5 y Cod. Mae'r cynllun sgorio risg o fewn y Cod yn cynnwys wyth maen prawf sy'n pennu amlder yr ymyriadau.

4.4.32 Mae sgoriau cyfunol pob un o'r wyth maen prawf yn creu cyfanswm sgôr risg y sefydliad. Cafodd data gan 19 o awdurdodau lleol ei asesu i benderfynu a oedd cyfanswm y sgôr risg wedi'i gyfrifo'n gywir. Cyfrifwyd y sgôr hon yn gywir ym mhob achos gan 11 o awdurdodau lleol. Yn yr wyth awdurdod lleol a oedd yn weddill, roedd bron pob sgôr risg wedi'i chyfrifo'n gywir. Fodd bynnag, lle nodwyd anghysondebau, nododd y rhain nad oedd o leiaf un o'r wyth maen prawf yn gywir. Os oedd y sgôr risg anghywir yn berthnasol i'r sgôr hylendid bwyd a gyfrifwyd, gallai hyn effeithio ar y sgôr hylendid a roddwyd. Ymhellach, os yw cyfanswm y sgôr risg yn anghywir, gallai hyn newid amlder yr ymyriadau. Gallai hyn arwain at oedi wrth gynnal ymyriad a allai effeithio ar ddilysrwydd cyfredol y sgôr hylendid bwyd.

4.4.33 Mae tri o'r wyth maen prawf yn berthnasol i gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys lefel gydymffurfio (cyfredol) ar gyfer gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau trin bwyd, a rheoli tymheredd), strwythur y sefydliad (gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr yr adeilad, goleuadau, awyru, cyfleusterau ac ati) a hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli.

4.4.34 Roedd y data gan 20 o awdurdodau lleol yn golygu bod modd asesu a oedd y sgôr hylendid bwyd wedi'i chyfrifo'n gywir gan ddefnyddio'r tri maen prawf. Canfuwyd bod yr holl sgoriau'n cael eu cyfrifo'n gywir yn yr 20 o awdurdodau lleol hyn.

4.4.35 Rhaid i'r asesiad hyder mewn rheolwyr / systemau rheoli fod yn gyson â'r sgôr risg sylweddol a ddefnyddir pan fo risg sylweddol o bathogenau penodol yn halogi neu'n goroesi mewn bwyd sy'n barod i'w fwyta. Os asesir bod hyder mewn rheolwyr yn uchel neu'n gymedrol, ac asesir hefyd fod risg sylweddol, yna mae un o'r asesiadau'n anghywir.

4.4.36 Roedd modd asesu'r sgôr hyder mewn rheolwyr / systemau rheoli mewn perthynas â'r sgôr risg sylweddol gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd gan 20 o awdurdodau lleol. Yn hanner yr awdurdodau lleol hyn, roedd defnyddio'r sgôr hyder mewn rheolwyr / systemau rheoli yn gyson â'r defnydd o'r sgôr risg sylweddol. Yn y 10 awdurdod lleol arall, roedd bron pob sgôr yn gyson, Fodd bynnag, lle nodwyd anghysondebau, roedd hyn yn dangos nad oedd un o'r ddau faen prawf yn gywir. Pe bai'r sgôr hyder mewn rheolwyr / systemau rheoli yn anghywir, gallai hyn effeithio ar y sgôr hylendid a ddyfarnwyd.

4.4.37 Cafodd sampl o sgoriau hylendid bwyd 21 o awdurdodau lleol eu croesgyfeirio yn erbyn y wefan sgoriau hylendid bwyd. Roedd y sampl o sgoriau a ddyfarnwyd gan 20 o awdurdodau lleol yn gywir ar y wefan. Mewn un awdurdod, ar gyfer un o'r sefydliadau a samplwyd, roedd y wefan yn dangos y sgôr gywir ond y dyddiad arolygu anghywir a oedd yn dangos y bu gwall wrth lanlwytho'r arolygiad diweddaraf i'r wefan sgoriau hylendid bwyd.

***Argymhelliad 7***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod data sgoriau risg yn gyson ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) i sicrhau'r amlder cywir o ymyriadau a dyraniad y sgôr hylendid bwyd gywir o dan y Cynllun. [Y Safon – 7.2]

## 4.5 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau / Arolygiadau

4.5.1 Yn rhan o'r wybodaeth sydd ei hangen i gyd-fynd â hysbysiadau i fusnesau bwyd, mae angen darparu copi o'r adroddiad arolygu a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgôr hylendid. Mewn achosion lle na ddyfarnwyd y sgôr uchaf, mae'n rhaid rhoi manylion am y camau sydd angen eu cymryd, gan gyfeirio at bob un o'r tri maen prawf (lefel gydymffurfio (cyfredol) ar gyfer hylendid, lefel gydymffurfio (cyfredol) ar gyfer strwythur a hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli) cyn y gellir dyfarnu'r sgôr uchaf. Mae hyn yn galluogi'r busnes i ddeall sut i gydymffurfio ac mae'n cyfiawnhau'r sgôr a ddyfarnwyd.

4.5.2 Cyflwynodd 21 o awdurdodau lleol dempled o adroddiad arolygu. Roedd pob un yn cyfeirio at y tri maen prawf. Roedd 17 yn cynnwys disgrifiadau, ac roedd geiriad y disgrifiadau hynny yn gyson ag Atodiad 5 y Cod. Mae hyn yn egluro i fusnesau sut y cyfrifwyd eu sgôr.

4.5.3 Rhaid arddangos sgoriau hylendid bwyd mewn sefydliadau gan ddefnyddio’r sticer penodol. Roedd templedi pob llythyr yn cynnwys datganiad ynghylch y gofyniad statudol i arddangos y sticer.

4.5.4 Pan roddir gwybod i fusnesau am eu sgôr, rhaid iddynt gael gwybod am yr amgylchiadau pan na fydd y sgôr na'r sticer yn ddilys mwyach. Esboniodd wyth awdurdod lleol yr amgylchiadau hyn yn llawn ar eu llythyrau templed tra bod 10 awdurdod lleol wedi rhoi esboniad rhannol. Nid oedd tri awdurdod lleol yn hysbysu'r busnes am yr amgylchiadau pan na fyddai sgôr na sticer yn ddilys mwyach.

***Arfer da***

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn disgrifio'n glir yr amgylchiadau lle na fyddai'r sgôr na'r sticer yn ddilys mwyach mewn dogfen wedi'i hatodi at ei adroddiad hysbysu safonol, sydd hefyd yn ymgorffori'r wybodaeth ddiogelu orfodol.

4.5.5 Mae canllawiau'r CSHB yn mynnu bod busnesau yn cael gwybod pryd, ble a sut y bydd eu sgoriau'n cael eu cyhoeddi. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu'r wybodaeth hon yn glir ar lythyrau templed a dewisodd rai atodi taflenni yn esbonio'r Cynllun neu ddolenni i'w gwefan eu hunain neu wefan yr ASB, lle y gellid dod o hyd i'r wybodaeth hon. Mewn rhai achosion, methodd awdurdodau â darparu pob elfen ofynnol o'r wybodaeth hon.

4.5.6 Mae'n ofynnol i awdurdodau roi gwybod i fusnesau am eu sgôr a rhoi gwybodaeth ategol o fewn 14 diwrnod i'r arolygiad. Roedd yn bosibl dadansoddi'r data a gyflwynwyd gan 13 o awdurdodau lleol i asesu cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn. Ym mhob un o'r awdurdodau hyn, anfonwyd rhai llythyrau ar ôl y terfyn amser statudol o 14 diwrnod. Mewn pump awdurdod lleol mae'r data'n nodi y cafodd dros 50 o lythyrau ym mhob awdurdod eu hanfon ar ôl y terfyn amser gorfodol o 14 diwrnod.

## Mesurau Diogelu

4.5.7 Mae'r Cynllun yn ymgorffori tri mesur diogelu i sicrhau tegwch i fusnesau, sef gweithdrefn apelio; 'hawl i ymateb' a gweithdrefn i ofyn am ailarolygiad / ailymweliad at ddibenion ailsgorio yn dilyn gwelliannau. Mae mesurau diogelu'n hanfodol i gadw ffydd defnyddwyr a gweithredwyr busnesau bwyd.

4.5.8 Mae Panel Arbenigol ar Ddiogelwch Bwyd Cymru wedi gweithio i ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a llythyrau templed gyda'r nod o hwyluso dull cyson ar draws Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb.

4.5.9 Roedd pob awdurdod wedi darparu gwybodaeth i gadarnhau bod busnesau'n cael eu cyfeirio at fesurau diogelu'r Cynllun. Cyflwynodd 20 o awdurdodau lleol weithdrefn cynllun sgorio hylendid bwyd wedi'i chofnodi a oedd yn cynnwys mesurau diogelu. Fel arfer, roedd busnesau'n cael eu cyfeirio at fesurau diogelu drwy lythyrau templed safonol a thaflenni wedi'u hamgáu neu ddolenni gwe wedi'u hymgorffori ynddynt. Roedd ffurflenni cais ar gyfer apelio, 'hawl i ymateb' a cheisiadau am arolygiadau ailsgorio ar gael i'w lawrlwytho ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd llythyrau templed yn hysbysu busnesau y gallent gael copïau papur ar gais.

## Ailsgorio

4.5.10 Mae arolygiad ailsgorio'n rhoi cyfle i fusnesau wella eu sgôr cyn eu harolwg rheolaidd nesaf, os ydynt wedi cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Pan fo busnes wedi gwneud y cais yn ysgrifenedig ar y ffurflen berthnasol, wedi cytuno i dalu'r costau rhesymol ar gyfer ailsgorio ac wedi bodloni'r amodau a restrir yng nghanllawiau'r CSHB, rhaid cynnal arolygiad ailsgorio cyn pen 3 mis ar ôl i'r awdurdod gael y cais. Roedd yr 20 gweithdrefn benodol i'r cynllun yn cynnwys gofyniad cyffredinol ar gyfer cynnal ymweliadau ailsgorio dirybudd, o fewn amserlen o 3 mis a dim ond os oedd sgoriau presennol yn cael eu harddangos.

4.5.11 Rhaid i awdurdodau anfon yr wybodaeth ganlynol am ailsgorio i fusnesau ynghyd â'r hysbysiad sgorio:

- Gwybodaeth am sut i wneud cais am arolygiad at ddiben ailsgorio
- Gellir cyflwyno'r cais ar unrhyw adeg
- Sut i gael y ffurflen i wneud cais
- I bwy y mae'n rhaid anfon y ffurflen
- Manylion costau'r arolygiad
- Sut a phryd y mae'n rhaid talu'r rhain

4.5.12 Roedd pob awdurdod a gyflwynodd dempledi hysbysiad safonol yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais am ailsgorio. Nododd y mwyafrif, ar ôl gwneud y gwelliannau angenrheidiol, y gellid gwneud cais am ailsgorio. Nid oedd pob awdurdod yn ei gwneud hi'n glir y gellid gwneud cais ar unrhyw adeg. Ni ddarparwyd manylion am sut i gael y ffurflen i wneud cais mewn dau o'r llythyrau templed.


4.5.13 Roedd pob un o'r 21 o awdurdodau lleol a ddarparodd dempled o lythyr safonol wedi rhoi gwybod i fusnesau am y costau ailsgorio neu wedi cynnwys dolen i wybodaeth ar-lein. Mae awdurdodau lleol Cymru wedi cyfrifo a chytuno ar gost resymol yr ailsgorio. I gychwyn, cytunwyd ar ffi o £150, ond bellach mae wedi codi i £160. Nid oedd dau awdurdod lleol wedi diweddaru'r gost i £160 ym mhob dogfen a ddarparwyd. Roedd 12 o awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth lawn am sut a phryd y dylid talu'r gost ailsgorio. Nid oedd y naw awdurdod lleol a oedd yn weddill wedi darparu'r wybodaeth yn llawn.

4.5.14 Roedd data gan saith awdurdod lleol yn golygu bod modd asesu'r amserlen ar gyfer ymweliadau ailsgorio. Yn gyffredinol, roedd lefel gydymffurfio uchel â'r cyfnod statudol. Roedd dau awdurdod lleol wedi cynnal pob ymweliad ailsgorio o fewn tri mis. Yn achos y pump awdurdod lleol a oedd yn weddill, aethpwyd ati i ailsgorio ar amser mewn 86% i 98% o achosion.

4.5.15 Mae canllawiau statudol yn nodi, os yw'r gwelliannau sydd eu hangen yn ymwneud â hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli, byddai'n rhesymol cynnal yr arolygiad ailsgorio tua diwedd y cyfnod o 3 mis, er mwyn sefydlu bod y gwelliannau yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn cael eu cynnal. Lle'r oedd materion yn ymwneud â hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli, dim ond mewn tri awdurdod yr oedd hi’n bosibl canfod a oedd yr arolygiad ailsgorio wedi'i gynnal tua diwedd y cyfnod o 3 mis. Mewn un awdurdod lleol, cafodd 18% o arolygiadau ailsgorio cymwys eu cynnal o fewn mis diwethaf y cyfnod, a 23% a 29% yn y ddau awdurdod arall.

4.5.16 Cynhaliwyd cyfanswm o 2076 o ymweliadau ailsgorio o fewn y tair blynedd ers yr adolygiad diwethaf o'r Cynllun. Oherwydd amrywiadau yn y data, roedd modd cymharu'r sgoriau gwreiddiol a'r sgoriau dilynol ar gyfer 1286 o'r ymweliadau ailsgorio hyn.

**Ffigur 1 – Dosbarthu canlyniadau ailsgorio.**




4.5.17 Roedd hi'n bosibl sefydlu a oedd yr ailsgorio wedi'i gyfrifo'n gywir o'r data a ddarparwyd gan 15 o awdurdodau lleol. Mewn wyth awdurdod lleol, dangosodd sampl o ganlyniadau ailsgorio fod y cyfrifiad yn gywir ym mhob achos. Mewn saith awdurdod lleol, roedd tystiolaeth o dueddiad yn nyraniad y sgoriau 0 neu 5 ar gyfer sgorio hyder mewn rheolwyr lle nodwyd problemau cydymffurfio sylweddol yn ystod yr arolygiad diwethaf.

4.5.18 Gwiriwyd sampl o ddata ailsgorio gan 18 o awdurdodau lleol yn erbyn gwefan yr ASB. Mewn 13 o awdurdodau lleol, roedd yr holl ganlyniadau ailsgorio yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd ar wefan yr ASB. Canfuwyd anghysondebau ailsgorio mewn dau awdurdod lleol allan o'r 18. Mewn tri awdurdod lleol, er bod yr ailsgorio'n cyfateb i'r rhai hynny a ddangosir ar y wefan, nid oedd y dyddiad y cynhaliwyd yr ymweliad ailsgorio yn cyd-fynd bob tro.

## Apelio

4.5.19 Rhaid bod gan awdurdodau weithdrefn apelio ar waith i fusnesau allu herio eu sgôr hylendid bwyd os yw'r busnes o'r farn bod y sgôr yn annheg. Rhaid anfon manylion y weithdrefn apelio i'r busnes wrth ei hysbysu am y sgôr. Dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Enw a manylion cyswllt y swyddog a gynhaliodd yr arolygiad.
- O fewn pa gyfnod y bydd rhaid gwneud apêl.

- Sut i gael ffurflen ar gyfer gwneud apêl.
- Enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae’n rhaid anfon y ffurflen apêl ato ar ôl ei llenwi.
- Y broses a ddilynir er mwyn dod i benderfyniad ar yr apêl, a rhoi gwybod i'r busnes am y canlyniad.

4.5.20 O'r 21 o awdurdodau lleol a gyflwynodd lythyrau templed, roedd y mwyafrif yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol. Roedd yr wybodaeth hon i'w chanfod naill ai yn y templed ei hun, dolenni i wefannau neu daflenni amgaeedig. Roedd pob awdurdod lleol wedi cynnwys enw a manylion cyswllt y swyddog a gynhaliodd yr arolygiad ar eu templedi. Nid oedd un templed yn cynnwys y cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno'r apêl. Nid oedd pump o’r templedi’n cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar y ffurflen ar gyfer cyflwyno'r apêl neu enw a manylion cyswllt y swyddog mae'n rhaid anfon y ffurflen apêl ato. Roedd 11 o awdurdodau lleol wedi darparu rhywfaint o wybodaeth am y broses o ddod i benderfyniad ar apêl, yn ogystal â gwybodaeth am hysbysu'r busnes am y canlyniad. Nid oedd unrhyw lythyrau templed wedi ymgorffori'n llawn yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 a chanllawiau'r CSHB.

4.5.21 Roedd yr ASB wedi adolygu'r modd y caiff system apelio'r Cynllun ei gweithredu yn flynyddol rhwng mis Mai 2015 a mis Chwefror 2018. Roedd pob adolygiad wedi'u cynnwys mewn adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adolygiadau wedi canfod bod apeliadau yn cael eu pennu'n wrthrychol gan awdurdodau lleol i raddau helaeth ac yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau'r CSHB.

4.5.22 Rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu'r broses apelio i raddau helaeth yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau statudol. Codwyd cyfanswm o 100 o apeliadau ar draws 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Daethpwyd i benderfyniad ar bedwar o'r 100 o apeliadau y tu allan i'r cyfnod o 21 diwrnod a chafodd pob un eu cwblhau o fewn 25 diwrnod. Cafodd argymhelliad ei gynnwys yn adolygiad 2018, yn cynghori awdurdodau lleol i sicrhau y deuir i benderfyniad ar yr holl apeliadau, ac yr hysbysir gweithredwr y busnes a'r ASB am y canlyniad, o fewn 21 diwrnod wedi i'r apêl ddod i law. Roedd yr argymhelliad hefyd yn cynghori os oedd oedi yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u rhwymedigaethau statudol.

4.5.23 Mae'r 100 o apeliadau yn erbyn sgoriau a wnaed yn ystod y cyfnod yn cynrychioli 1.84% o'r 5,424 o sefydliadau bwyd a gafodd sgôr rhwng 0 (angen gwella ar frys) a 4 (da). Nid yw’r ffigur hwn yn cynnwys busnesau â

sgôr hylendid bwyd o ‘5’ gan na fyddai disgwyl i’r busnesau hyn apelio yn erbyn eu sgôr. O'r rhain, ystyriwyd bod 84 o fusnesau a oedd wedi apelio yn erbyn eu sgôr wedi cael y sgôr gywir tra bod 16 wedi arwain at newidiadau i'r sgoriau hylendid bwyd. O'r 16 o sgoriau a newidiwyd, cafodd 15 sgôr uwch ac arweiniodd un at sgôr is. Cafodd y rhan fwyaf o'r apeliadau, sef 61, eu gwneud gan fusnesau bwyd a gafodd sgôr is na 3. Cafodd pob apêl ei hystyried gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn rhan o’r broses o asesu’r sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei hapelio.

## Hawl i ymateb

4.5.24 Mae'r 'hawl i ymateb' yn rhoi cyfle i fusnesau wneud sylwadau ar sgôr ac esbonio unrhyw gamau a gymerwyd ers dyfarnu’r sgôr neu i roi gwybod am unrhyw amgylchiadau adeg yr arolygiad a allai fod wedi effeithio ar y sgôr. Rhaid cyflwyno'r sylwadau 'hawl i ymateb' yn ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol eu hadolygu cyn eu cyflwyno i'r ASB i'w cyhoeddi ar y wefan sgoriau.

4.5.25 Mae templed safonol y gall busnesau ei ddefnyddio i gyflwyno 'hawl i ymateb' ar gael ar wefan yr ASB. Nid oes gofyniad i'r ffurflen hon gael ei defnyddio, ac mae rhwydd hynt i fusnes gyflwyno ei sylwadau mewn fformat ysgrifenedig wahanol, wedi'i nodi'n glir fel eu sylwadau 'hawl i ymateb'.

4.5.26 O'r 21 o awdurdodau lleol a ddarparodd dempled llythyr safonol, roedd un awdurdod nad oedd yn datgan y byddai'r sylwadau hawl i ymateb yn cael eu cyflwyno i'w cyhoeddi ar y wefan. Roedd amrywiad yn y modd yr oedd awdurdodau lleol yn cyfeirio at enw a manylion cyswllt y swyddog y mae'n rhaid anfon y sylwadau ato. Er bod y rhan fwyaf o dempledi yn cynnwys yr enw a'r manylion cyswllt, roedd rhai yn cyfeirio busnesau at yr wybodaeth hon trwy wefan neu daflen.

4.5.27 Nid oedd y mesur diogelu 'hawl i ymateb' yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn gan weithredwyr busnesau bwyd. Roedd 12 o awdurdodau lleol wedi cael cyfanswm o 37 o sylwadau hsawl i ymateb o fewn y tair blynedd ers yr adolygiad diwethaf o'r Cynllun. Nid oedd wyth wedi cael unrhyw sylwadau 'hawl i ymateb' ac mewn dau achos ni chyflwynwyd unrhyw ddata ynglŷn â'r mesur diogelu hwn.

***Argymhelliad 8***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gan weithredwr sefydliad yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Cynllun o fewn 14 diwrnod i'r arolygiad. Dylai'r wybodaeth statudol ragnodedig yn ymwneud â cheisiadau am ymweliadau ailsgorio; cyflwyno'r sylwadau hawl i ymateb; sut y bydd y broses apelio yn cael ei phenderfynu; a rhoi gwybod i'r busnes am y canlyniad, gael ei darparu pan fydd y sgôr yn cael ei rhoi. Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod gwybodaeth am yr amgylchiadau lle nad yw sgôr na sticer yn ddilys mwyach yn cael ei nodi'n glir pan roddir gwybod i'r busnes am y sgôr. [Y Safon – 7.2]

***Argymhelliad 9***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu gweithdrefnau cofnodedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth statudol ragnodedig sy'n ymwneud â mesurau diogelu. [Y Safon – 7.4]

***Argymhelliad 10***

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl ymweliadau ailsgorio yn cael eu cynnal cyn pen tri mis o ddyddiad y cais. Ymhellach, lle mae'r gwelliannau a wnaed yn faterion sy'n ymwneud â hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli, dylid cynnal arolygiadau ailsgorio tua diwedd y cyfnod o 3 mis er mwyn sicrhau bod y gwelliannau wedi'u gweithredu'n llawn a'u cynnal. [Y Safon – 7.2]

## 4.6 Gorfodi

4.6.1 Caiff nifer o dramgwyddau eu nodi mewn perthynas â'r Cynllun, fel y rhestrir isod:

- Methu ag arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys
- Arddangos sticer sgôr hylendid bwyd annilys.
- Methu â chadw sticer sgôr hylendid bwyd dilys.
- Ildio meddiant ar sticer sgôr hylendid bwyd.
- Methu â darparu'r wybodaeth sgorio gywir ar lafar ar gais.
- Darparu gwybodaeth gamarweiniol ar lafar ar gais.
- Yn fwriadol yn newid, yn difwyno neu fel arall yn ymyrryd â sticer sgôr hylendid bwyd (oni bai ei fod yn annilys a bod angen ei ddinistrio).

- Methu â darparu'r datganiad rhagnodedig ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.
- Dangos sgôr annilys ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

4.6.2 Mae gan awdurdodau nifer o ddewisiadau gorfodi ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod busnesau bwyd yn gweithredu gofynion y Cynllun. Dylai materion diffyg cydymffurfio ddilyn yr hierarchaeth orfodi. Pan na chaiff diffyg cydymffurfio ei ddatrys yn hawdd neu'n gyflym gan ddefnyddio dull anffurfiol, mae gan awdurdodau'r hawl i gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig, neu roi rhybudd neu erlyn syml. Mae hysbysiad cosb benodedig yn cynnig cyfle i fusnes bwyd ryddhau unrhyw atebolrwydd i gael euogfarn am drosedd trwy dalu cosb benodedig.

4.6.3 Darparodd 18 o'r 22 o awdurdododau lleol weithdrefnau yn amlinellu camau gorfodi i'w cymryd o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun. Roedd tri awdurdod yn darparu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer pob cosb gorfodi, tra’r oedd 15 yn eu darparu'n benodol ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig. Yn y pedwar awdurdod lle nad oedd gweithdrefnau cofnodedig yn mynd i'r afael â thramgwyddau'r Cynllun, rhoddwyd gwybodaeth i nodi y byddai Polisi Gorfodi'r awdurdod yn cael ei ystyried.

***Arfer da***

Mae gweithdrefn ymyriadau Cyngor Sir Ceredigion yn nodi bod pob busnes yn cael eu rhybuddio am y troseddau sy'n gysylltiedig ag arddangos sgôr pan fyddant yn cael eu llythyr hysbysu ac nad oes angen anfon rhybuddion ysgrifenedig ychwanegol cyn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

4.6.4 Mae gan bob awdurdod sefydliadau lle mae ganddynt gyfrifoldeb gweithredwr busnes bwyd. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn destun ymyriadau gan yr awdurdod a byddant yn cael eu cynnwys yn ei raglen ymyrryd. Roedd 11 o awdurdodau lleol yn cyfeirio'n benodol at ddelio â diffyg cydymffurfio mewn sefydliadau o'r fath o fewn eu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig. Roedd y rhain yn cynnwys, sicrhau bod penderfyniadau gorfodi yn rhydd rhag unrhyw wrthdaro buddiannau, egluro sianelau cyfathrebu a manylu ar drefniadau uwchgyfeirio mewn achosion o dramgwyddau parhaus neu ddifrifol.

***Arfer da***

Cyflwynodd pedwar awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Sir Benfro) bolisïau neu weithdrefnau a oedd yn ystyried y Cynllun yn benodol mewn perthynas â sefydliadau lle mae'r awdurdod yn weithredwr y busnes bwyd neu lle mae ganddo fudd. O'r rhain, roedd dau awdurdod lleol wedi nodi safon ofynnol o 'cydymffurfio'n eang' fel isafswm mewn perthynas â busnesau bwyd yn mynd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr awdurdod lleol.


## Rhybuddion ysgrifenedig

4.6.5 Mae awdurdodau yn datrys y rhan fwyaf o dramgwyddau trwy siarad â'r busnes am gydymffurfiaeth mewn modd adeiladol, gan weithredu dull gorfodi graddedig. Yn aml, defnyddir rhybuddion ysgrifenedig fel rhan o'r broses uwchgyfeirio. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi rhybuddion ysgrifenedig i fusnesau nad oedd yn arddangos eu sgoriau yn unol â'r gyfraith. Gan ddefnyddio gwybodaeth gan naw awdurdod lleol, roedd pump wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig unigol i sefydliadau busnes ac mewn pedwar awdurdod lleol, roedd nifer fach o enghreifftiau lle rhoddwyd mwy nag un rhybudd ysgrifenedig i'r un sefydliad. Nid oedd yr archwiliad yn gallu canfod a oedd perchenogaeth y sefydliad busnes wedi newid dwylo yn yr achosion hyn.

## Hysbysiadau Cosb Benodedig

4.6.6 Mae cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn caniatáu i awdurdodau fabwysiadu dull graddedig o ofyn i fusnes gydymffurfio. Roedd ffigurau gan 21 o awdurdodau lleol yn nodi bod awdurdodau lleol wedi cyhoeddi 219 o hysbysiadau cosb benodedig dros y tair blynedd diwethaf. Roedd data gan ddeg awdurdod yn nodi bod y rhan fwyaf o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyflwyno i sefydliadau sy'n darparu bwyd agored, risg uchel, gan gynnwys bwytai, caffis neu ffreuturau, tafarndai neu glybiau a sefydliadau tecawê. Mewn chwe o awdurdodau lleol, roedd yn bosibl asesu'r rhesymau cyffredinol dros gyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig mewn 35 achos.


**Ffigur 2 – Rheswm dros gyflwyno hysbysiad cosb benodedig**




4.6.7 Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gael ar gyfer 12 o awdurdodau lleol. Yn yr holl achosion hyn, roedd yr hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyflwyno ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau'r CSHB.

4.6.8 Mewn 120 o achosion ar draws 14 o awdurdodau lleol, roedd hi'n bosibl asesu'r sgôr hylendid bwyd bresennol mewn sefydliadau lle cyflwynwyd hysbysiad cosb benodedig.

**Ffigur 3 – Dosbarthu sgoriau'r CSHB lle rhoddwyd hysbysiad cosb benodedig**





4.6.9 Roedd modd asesu canlyniad pob hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â data a ddarparwyd gan naw awdurdod. Roedd yr wybodaeth yn awgrymu, yn gyffredinol, fod busnesau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau trwy dalu'r hysbysiadau cosb benodedig. Roedd y busnesau hynny nad oeddent wedi talu, naill ai'n cael eu herlyn neu wedi gorffen masnachu heb i gamau pellach gael eu cymryd yn erbyn y gweithredwyr.

4.6.10 Yn seiliedig ar wybodaeth gan 18 o awdurdodau lleol, roedd yn bosibl nodi a oedd hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyflwyno'n flaenorol i'r un cyfeiriad busnes. Nid oedd 13 o'r rhain wedi cyhoeddi mwy nag un hysbysiad ar gyfer yr un sefydliad busnes. Roedd nifer fechan o achosion ar draws y pum awdurdod lleol a oedd yn weddill yn nodi bod mwy nag un hysbysiad wedi'u cyflwyno. Nid oedd yn bosibl asesu a oedd y gweithredwr busnes bwyd wedi aros yr un peth yn yr achosion hyn.

4.6.11 Mewn wyth o awdurdodau lleol, roedd hi'n bosibl asesu gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas ag ymweliadau i wirio a oedd y busnes yn arddangos y sgôr mewn man priodol ar ôl cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. Roedd saith o'r rhain wedi gwirio'r man lle'r oedd y sticeri sgorio yn cael eu harddangos ar ôl cyflwyno hysbysiad cosb benodedig ac fe ddywedodd un awdurdod ei fod wedi gwirio'r man lle'r oedd yn sgôr yn cael ei harddangos pan na chafodd hysbysiad cosb benodedig ei dalu. Roedd saith awdurdod wedi darparu gwybodaeth am statws arddangos sticeri sgôr yn dilyn cwblhau'r broses hysbysiad cosb benodedig.

**Ffigur 4 – Arddangos sgoriau'r CSHB ar ôl cwblhau'r broses hysbysiad cosb benodedig**




## Rhybuddion Syml

4.6.12 Mae rhybuddion syml yn cynnig cosb gorfodi ffurfiol arall lle mae erlyniad yn bosibl, ond bod y troseddwr wedi cyfaddef i'r drosedd ac mae amgylchiadau'n nodi y gallai fod yn well mynd i'r afael â'r mater heb droi at achos Llys. Mae'r Rhybudd Syml yn cofnodi ymddygiad troseddol unigolyn, fel y gellir cyfeirio ato mewn achosion troseddol yn y dyfodol. Fe wnaeth 19 o awdurdodau lleol ddarparu data rhybudd syml. Ni roddwyd rhybuddion syml am droseddau yn ymwneud â thramgwyddau'r CSHB.

## Erlyniadau

4.6.13 Erlyniadau yw'r dewis terfynol o fewn yr hierarchaeth o gosbau gorfodi. Cyflwynodd 20 o awdurdodau lleol wybodaeth am erlyniadau, ac roedd deg o'r rhain wedi erlyn 17 busnes am droseddau yn ymwneud ag arddangos sgoriau. Yn gyffredinol, roedd yr erlyniadau'n gysylltiedig â sefydliadau â sgôr rhwng 0 a 2 a oedd wedi cael hysbysiadau cosb benodedig yn flaenorol ac yn ymwneud â methu ag arddangos sgôr; roedd nifer fechan o droseddau eraill wedi'u cynnwys hefyd. Nid oedd gwybodaeth am y rhesymau dros y tramgwydd bob amser yn cael ei darparu, ond mewn dau achos, cofnodwyd

troseddau fel methiant i dalu'r hysbysiad cosb benodedig, er nad yw'n drosedd.

4.6.14 Darparwyd gwybodaeth am y dirwyon a roddwyd ar gyfer naw busnes. Y ddirwy gyfartalog fesul busnes oedd £407 (ac eithrio costau). Ystod y dirwyon a roddwyd oedd rhwng £100 i £1,000 fesul busnes.

***Argymhelliad 11***

Dylai awdurdodau lleol gofnodi eu gweithdrefnau ar y camau gorfodi i'w cymryd ar gyfer tramgwyddau'r Cynllun yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau swyddogol. Dylai gweithdrefnau o'r fath gynnwys gwirio cydymffurfiaeth â gofynion arddangos sgoriau yn dilyn cwblhau'r broses hysbysiadau cosb benodedig. [Y Safon – 15.2]

## 4.7 Hyrwyddo'r Cynllun

4.7.1 Roedd mwyafrif yr awdurdodau wedi ymgymryd â rhyw fath o weithgarwch hyrwyddo yn ymwneud â'r Cynllun. Roedd yr wybodaeth a darparwyd gan yr awdurdodau yn dangos eu bod wedi datblygu ystod o fentrau ar gyfer darparu cyngor ar hylendid bwyd i fusnesau ar sail ragweithiol ac adweithiol. Roedd y rhain yn cynnwys dosbarthu taflenni cyngor i fusnesau, cynnal ymweliadau cynghori, trefnu sesiynau hyfforddi pwrpasol, cyflwyniadau, cynnig hyfforddiant rheoli diogelwch bwyd i fusnesau newydd ac ymgysylltu ag aelodau newydd y Cyngor trwy stondinau arddangos. Roedd cyfran arwyddocaol o weithgarwch hyrwyddo yn cynnwys anfon e-byst i gyd-fynd â'r ymdrech i ehangu'r Cynllun i gynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â masnach busnes i fusnes. Defnyddiwyd e-byst hefyd pan gyflwynodd Rheoliadau 2016 ofynion ar gyfer y rheiny sy'n darparu bwyd tecawê i gynnwys manylion ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd i gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau.

4.7.2 Cynhaliwyd gweithgareddau hyrwyddo gan awdurdodau trwy ddefnyddio'r canlynol:

- Datganiadau i'r wasg.
- Gwefannau'r Cyngor.
- E-byst.
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasu trwy Facebook a Twitter.
- Fideos YouTube.
- Cylchlythyrau.
- Bwletinau aelodau.

- Pecynnau cymorth yr ASB.
- Cyflwyniadau.
- Arddangosfeydd mewn digwyddiadau.

***Arfer da***

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi creu fideo gyda swyddog iechyd yr amgylchedd yn esbonio'r Cynllun a'r ffactorau sy'n effeithio ar sgorio mewn ysgol sydd wedi cael sgôr '5’. Mae'r awdurdod hwn hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasu fel ffordd o hyrwyddo'r cynllun trwy dynnu sylw at fusnesau sydd wedi cael sgôr '5'.

4.7.3 Defnyddiwyd achlysuron megis y Nadolig, Dydd Sant Ffolant a Dydd Mawrth Ynyd fel ffocws ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo, gydag awdurdodau'n defnyddio pecynnau cymorth yr ASB i hyrwyddo'r Cynllun. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasu i annog defnyddwyr i 'gymryd cip cyn bachu bwrdd', defnyddio gwefan y Cynllun Sgorio, 'chwilio am y sticer gwyrdd a du' a 'rhoi gwybod os na allwch chi weld y sticer’. Roedd y gweithgareddau hyn yn atgoffa defnyddwyr i ddefnyddio'r Cynllun wrth fwyta allan.

4.7.4 Mae'r ASB wedi darparu cyllid grant i awdurdodau gynnal ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnwys hyfforddi mewn sefydliadau â sgôr rhwng 0-2. Mae awdurdodau lleol wedi cael mynediad at gyllid sydd ar gael gyda'r nod o sicrhau bod rhagor o fusnesau yn cydymffurfio trwy wella trefniadau rheoli diogelwch bwyd. Mae'r dull hwn yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae systemau rheoli diogelwch bwyd cadarn yn ei chael ar gydymffurfiaeth busnesau bwyd, a'r sgoriau dilynol.

## 4.8 Monitro Ymyriadau yn Fewnol

4.8.1 Mae monitro mewnol yn bwysig er mwyn sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu bodloni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.

4.8.2 Darparodd 21 o awdurdodau lleol eu gweithdrefnau ar gyfer cynnal archwiliadau monitro mewnol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas ag ymyriadau a gynhwysir o fewn y Cynllun. Mewn 15 awdurdod, roedd y gweithdrefnau'n cynnwys y person sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r monitro mewnol yn ogystal ag amlder a nifer y gwiriadau. Mewn un awdurdod,

ni phennwyd isafswm nifer y gwiriadau ar gyfer pob gweithgarwch monitro, ac yn y pum awdurdod a oedd yn weddill, ni nodwyd isafswm yr amlder ar gyfer gwiriadau monitro yn y gweithdrefnau.

4.8.3 Roedd yr holl weithdrefnau monitro mewnol yn cynnwys swyddogion yn cael eu monitro yn ystod arolygiadau a gwiriadau ar ymyriadau mewn sefydliadau a weithredir gan yr awdurdodau lleol. Roedd gwiriadau cronfa ddata wedi'u cynnwys mewn 19 o weithdrefnau. Roedd gwiriadau i sicrhau bod yr hysbysiad sgorio wedi'i wneud o fewn 14 diwrnod wedi'u cynnwys mewn 18 o'r gweithdrefnau a oedd ar gael. Roedd gwiriadau i sicrhau bod y sgôr wedi'i chyfrifo'n gywir hefyd wedi’u gwneud yn 18 o’r gweithdrefnau a oedd ar gael. Roedd dwy weithdrefn yn cynnwys gwirio bod gwybodaeth am fesurau diogelu wedi cael ei hanfon gyda'r hysbysiad sgorio.

4.8.4 Darparwyd tystiolaeth gan 13 o awdurdodau lleol bod gweithgarwch monitro mewnol wedi'i gynnal. Er bod yr holl fonitro mewnol wedi cynnwys rhai gwiriadau a oedd yn gallu profi rhai agweddau ar y Cynllun, nid oedd yr un ohonynt wedi cynnwys y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau bod holl elfennau'r Cynllun yn cael eu gweithredu'n gywir.

4.8.5 Roedd pob awdurdod wedi cymryd rhan yn ymarfer cysondeb sgoriau cenedlaethol yr ASB yn 2017. Yn 2016, cymerodd 20 o awdurdodau lleol ran yn yr ymarfer cyson ac yn 2015, roedd pob awdurdod ond un wedi cymryd rhan. Darparwyd tystiolaeth hefyd o ymarferion cysondeb mewnol neu rai Cymru gyfan i bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae cysondeb hefyd yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Llywio'r CSHB Cymru Gyfan.

4.8.6 Darparwyd gwybodaeth am ganlyniad ymarferion monitro mewnol neu gysondeb ar gyfer 14 o awdurdodau lleol. Nid oedd chwech o'r awdurdodau hyn wedi nodi unrhyw anghysondebau. Yn yr wyth awdurdod a oedd yn weddill, nodwyd anghysondebau mewn perthynas â gwallau cronfa ddata, sgorio, amserlenni a gwybodaeth anghywir ar lythyrau. Mewn saith o'r awdurdodau hyn, darparwyd tystiolaeth i ddangos bod yr awdurdodau wedi mynd i'r afael â'r anghysondebau, ac roedd hyn yn cynnwys adborth i swyddogion, lle bo hynny'n berthnasol. Yn yr awdurdod a oedd yn weddill, nid oedd yn glir pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i nodi anghysondebau.

***Argymhelliad 12***

Dylai awdurdodau lleol gofnodi gweithdrefnau monitro mewnol sy'n cynnwys gwirio sampl benodol o ymyriadau ar gyfnodau amser penodedig i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cynllun. Dylai gweithdrefnau monitro mewnol wedi'u cofnodi gynnwys y gwiriadau canlynol:

- Bod y sgôr risg, y sgôr hylendid bwyd a'r dyddiad ymyriad dyledus yn gywir.
- Bod sgoriau mewn perthynas â hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli yn adlewyrchu cofnod cydymffurfiaeth y busnes yn gywir.
- Bod y sgôr hylendid bwyd yn cael ei hysbysu o fewn 14 diwrnod.
- Bod gwybodaeth am fesurau diogelu'n cael ei darparu.
- Bod yr wybodaeth ar ffeiliau sefydliadau yn gyson â'r hyn ar y gronfa ddata.
- Bod yr wybodaeth ar y gronfa ddata yn gyson â gwefan sgoriau'r ASB.

[Y Safon - 19.1]

***Argymhelliad 13***

Dylid gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn, a dylai awdurdodau lleol gofnodi canlyniad unrhyw wiriad a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw anghysondeb a nodwyd. [Y Safon – 19.1]

## 5.0 Casgliadau

5.1 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol wrth sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gymhwyso'n yn deg ar draws Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun, sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â deddfwriaeth a dyfarnu sgoriau trwy arolygiadau hylendid bwyd rheolaidd. Roedd ymrwymiad awdurdodau lleol i gyflwyno rhaglen o ymyriadau wedi'i gynnwys ym mhob un o'r cynlluniau gwasanaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.

5.2 Mae awdurdodau lleol wedi cydweithio i ddatblygu gweithdrefnau cyson ac i wneud yn siŵr bod trefniadau ar waith i sicrhau bod sgoriau'n cael eu cymhwyso'n gyson. Roedd pob awdurdod yn gallu dangos bod swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r Cynllun yn cael hyfforddiant cysondeb. Er bod rhai gweithdrefnau'n gofyn am newidiadau i wella gweithrediad cyson y Cynllun yng Nghymru, nodwyd nifer o arferion da hefyd.

5.3 Yn gyffredinol, canfuwyd bod awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno'r rhaglenni ymyrryd y mae'r Cynllun yn dibynnu arnynt. Lle nad oedd hyn yn wir, roedd nifer yr ymyriadau dyledus a'r sefydliadau heb sgôr yn her i'r awdurdodau lleol hynny. Roedd sgoriau hylendid bwyd yn cael eu cyfrifo'n gywir ac roedd y sgoriau hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan y sgoriau hylendid bwyd.

5.4 Darparodd pob awdurdod wybodaeth i gadarnhau bod busnesau'n cael eu cyfeirio at fesurau diogelu'r Cynllun. Roedd ailsgorio wedi arwain at sgôr gwell mewn 94% o achosion, tra bod 84% o fusnesau a oedd wedi apelio eu sgôr wedi cael y sgôr gywir yn wreiddiol. Nid oedd y mesur diogelu 'hawl i ymateb' yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn gan weithredwyr busnesau bwyd. Roedd awdurdodau lleol yn defnyddio'r ystod lawn o gamau gorfodi sydd ar gael i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â'r Cynllun, gan gynnwys gweithredu anffurfiol, hysbysiadau cosb benodedig ac erlyn. Roedd hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu targedu'n bennaf at sefydliadau â sgôr rhwng 0 a 2.

5.5 Yn gyffredinol, roedd awdurdodau wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwiriadau meintiol ac ansoddol ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag ymyriadau a gynhwysir o fewn y Cynllun. Nodwyd rhai cyfleoedd ar gyfer cynnwys gwiriadau ychwanegol yn y Cynllun.

## 6.0 Crynodeb o'r Argymhellion

6.1 Mae'r archwiliad wedi nodi'r argymhellion canlynol mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun yng Nghymru.

**Argymhelliad 1**

Dylai awdurdodau lleol gynnwys yn eu rhaglenni ymyrryd blynyddol, ymrwymiad i gynnal pob ymyriad sy'n weddill yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), amcangyfrifiad o nifer y busnesau newydd sydd angen arolygiad sgorio cyntaf yn ystod y flwyddyn a chynnwys nifer yr holl ymyriadau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol. [Y Safon – 3.1]

**Argymhelliad 2**

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu systemau wrth gefn priodol ar gyfer unrhyw gronfeydd data electronig, a systemau neu weithdrefnau cofnodedig sydd wedi'u dylunio i leihau'r perygl o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwir ar eu cronfeydd data. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod mesurau diogelwch rhesymol ar waith i atal mynediad a diwygiadau gan bobl anawdurdodedig. [Y Safon – 6.4]

**Argymhelliad 3**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff eu cronfeydd data eu gweithredu mewn ffordd sy'n golygu y gallant ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB. Dylai gweithdrefnau gynnwys gofyniad i lanlwytho sgoriau'r Cynllun o fewn y cyfnod amser penodedig ac osgoi lanlwytho gwybodaeth sensitif. Dylai cronfeydd data gofnodi gwybodaeth am y cynllun mewn perthynas â mesurau diogelu a gorfodi; gan gynnwys unrhyw arolygiadau ailsgorio a dyddiadau'r holl gamau a gymerwyd. [Y Safon - 6.3]

**Argymhelliad 4**

Dylai awdurdodau lleol gynnal ymyriadau/arolygiadau ym mhob sefydliad bwyd yn eu hardaloedd, ar amlder nad yw'n llai na'r hyn a bennir o dan y cynlluniau sgorio ymyriadau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

**Argymhelliad 5**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gweithdrefnau cofnodedig yn cyflawni’r canlynol:

- Nodi'r dull y maent yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu risg ymhlith sefydliadau heb sgôr er mwyn sicrhau bod busnesau risg uwch, gan gynnwys y rheiny o fewn cylch gwaith y Cynllun, yn cael eu harolygu yn gyntaf.

- Nodi y dylid ystyried adolygu'r math o ymyriad a'r sgôr pan fo gwybodaeth newydd yn dod i law.

- Nodi, mewn perthynas â busnesau aml-safle, y dylid darparu adroddiadau i'r gweithredwr busnes bwyd ac anfon copi i'r safle lleol lle bo hynny'n briodol.

- Cynnwys cyfarwyddiadau i wirio bod sticeri sgorio dilys yn cael eu harddangos ac i sicrhau bod sticeri yn cael eu tynnu i lawr lle nad ydynt yn ddilys.

- Cynnwys cyngor i swyddogion mewn perthynas ag arddangos sticeri sgorio mewn man amlwg ac i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu gwneud ym mhob mynedfa ac ym mhob lleoliad perthnasol lle mae nifer o fusnesau'n gweithredu o un sefydliad. [Y Safon – 7.4]

**Argymhelliad 6**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni aide-memoire yn cynnwys negeseuon atgoffa i wirio bod sticeri sgorio dilys yn cael eu harddangos yn iawn a sicrhau bod sticeri yn cael eu tynnu i lawr lle nad ydynt yn ddilys. Ymhellach, dylent gynnwys nodiadau atgoffa i swyddogion mewn perthynas ag arddangos sticeri mewn man amlwg ac i sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal ym mhob mynedfa ac ym mhob lleoliad perthnasol, gan gynnwys lle mae nifer o fusnesau'n gweithredu o un sefydliad. Dylai awdurdodau lleol hefyd adolygu eu ffurflenni aide-memoire i sicrhau bod holl ofynion y Cynllun mewn perthynas â deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cael eu cynnwys yn ddigonol. [Y Safon - 7.4]

**Argymhelliad 7**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod data sgoriau risg yn gyson ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) i sicrhau'r amlder cywir o ymyriadau a dyraniad y sgôr hylendid bwyd gywir o dan y Cynllun. [Y Safon – 7.2]

**Argymhelliad 8**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gan weithredwr sefydliad yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Cynllun o fewn 14 diwrnod i'r arolygiad. Dylai'r wybodaeth statudol ragnodedig yn ymwneud â cheisiadau am ymweliadau ailsgorio; cyflwyno'r sylwadau hawl i ymateb; sut y bydd y broses apelio yn cael ei phenderfynu; a rhoi gwybod i'r

busnes am y canlyniad, gael ei darparu pan fydd y sgôr yn cael ei rhoi. Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod gwybodaeth am yr amgylchiadau lle nad yw sgôr na sticer yn ddilys mwyach yn cael ei nodi'n glir pan roddir gwybod i'r busnes am y sgôr. [Y Safon – 7.2]

**Argymhelliad 9**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu gweithdrefnau cofnodedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth statudol ragnodedig sy'n ymwneud â mesurau diogelu. [Y Safon – 7.4]

**Argymhelliad 10**

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl ymweliadau ailsgorio yn cael eu cynnal cyn pen tri mis o ddyddiad y cais. Ymhellach, lle mae'r gwelliannau a wnaed yn faterion sy'n ymwneud â hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli, dylid cynnal arolygiadau ailsgorio tua diwedd y cyfnod o 3 mis er mwyn sicrhau bod y gwelliannau wedi'u gweithredu'n llawn a'u cynnal. [Y Safon – 7.2]

**Argymhelliad 11**

Dylai awdurdodau lleol gofnodi eu gweithdrefnau ar y camau gorfodi i'w cymryd ar gyfer tramgwyddau'r Cynllun yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau swyddogol. Dylai gweithdrefnau o'r fath gynnwys gwirio cydymffurfiaeth â gofynion arddangos sgoriau yn dilyn cwblhau'r broses hysbysiadau cosb benodedig. [Y Safon – 15.2]

**Argymhelliad 12**

Dylai awdurdodau lleol gofnodi gweithdrefnau monitro mewnol sy'n cynnwys gwirio sampl benodol o ymyriadau ar gyfnodau amser penodedig i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cynllun. Dylai gweithdrefnau monitro mewnol wedi'u cofnodi gynnwys y gwiriadau canlynol:

- Bod y sgôr risg, y sgôr hylendid bwyd a'r dyddiad ymyriad dyledus yn gywir.
- Bod sgoriau mewn perthynas â hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli yn adlewyrchu cofnod cydymffurfio'r busnes yn gywir.
- Bod y sgôr hylendid bwyd yn cael ei hysbysu o fewn 14 diwrnod.
- Bod gwybodaeth am fesurau diogelu’n cael ei darparu.

- Bod yr wybodaeth ar ffeiliau sefydliadau yn gyson â'r hyn ar y gronfa ddata.

- Bod yr wybodaeth ar y gronfa ddata yn gyson â gwefan sgoriau'r ASB. [Y Safon – 19.1]

**Argymhelliad 13**

Dylid gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn, a dylai awdurdodau lleol gofnodi canlyniad unrhyw wiriad a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw anghysondeb a nodwyd. [Y Safon – 19.1]


**Archwilwyr y Rhaglen:** Craig Sewell
Rebecca Jones
Jamie McMeeking

**Is-adran:** Cymru, Tîm Diogelu Defnyddwyr,
Asiantaeth Safonau Bwyd,
Llawr 11, Tŷ Southgate,
Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

## Atodiad A: Geirfa

| | |
|---|---|
| Sefydliadau cymeradwy | Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Swyddog Awdurdodedig | Swyddog sy'n meddu ar gymwysterau priodol sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth bwyd. |
| Pwynt Rheoli Critigol | Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae mesurau rheoli yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol. |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| Hylendid bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch bwyd a pha mor iach ydyw. |
| Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) | Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid. |
| Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) | Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd |

| | |
|---|---|
| | • Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae’r **Safon** a’r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau’r Asiantaeth ar gynllunio a chyflawni prosesau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.<br><br>Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni blynyddol i'r Asiantaeth ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio** bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal arolygon o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd yn ôl y meini prawf a nodir yn y Safon. |
| Arolygiad | Archwilio sefydliad bwyd er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Ymyriad | Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i’w gynorthwyo i wneud hynny. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol sy’n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu’r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd. |
| Sgôr risg | System sy’n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy’n pennu pa mor aml y dylid arolygu’r sefydliadau hynny. Er enghraifft, |

| | |
|---|---|
| | dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen wedi'i pharatoi gan awdurdod lleol yn amlinellu ei gynlluniau ar ddarparu a chyflenwi gwasanaeth bwyd neu fwyd anifeiliaid i'r gymuned leol. |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd wedi'i nodi gan awdurdod fel un sydd heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |

## Atodiad B: Holiadur Archwiliad

# Adolygiad o Weithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru

## Holiadur Adolygiad y CSHB yng Nghymru

**Llenwi'r holiadur**

Dylai'r Prif Swyddog enwebedig dros orfodi cyfraith bwyd lenwi'r holiadur hwn. Rhowch fanylion:

| | |
|---|---|
| Enw'r Swyddog: | |
| Swydd: | |
| Ffôn: | |
| E-bost: | |

Dylid anfon yr holiadur wedi'i lenwi, ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol, at wales.audit@foodstandards.gsi.gov.uk erbyn y dyddiad a bennir yn y cyfathrebiad cysylltiedig.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r tîm archwilio drwy ffonio 029 2067 8963.

### Adran A – Gwybodaeth gyffredinol

| | | |
|---|---|---|
| **A1** | Enw'r awdurdod lleol | |
| **A2** | Cyfeiriad yr awdurdod lleol (adran diogelwch hylendid bwyd): | |

At ddiben yr archwiliad, gofynnir i chi ddynodi Swyddog Cyswllt Archwilio.

| | | |
|---|---|---|
| **A3** | Enw'r Swyddog Cyswllt Archwilio: | |
| | Ffôn (llinell uniongyrchol): | |
| | E-bost: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad cyswllt (os yw'n wahanol i'r uchod) | |

## Adran B – Dogfennau

**Nodiadau**

Gofynnir i chi ddarparu copïau o'r dogfennau/cofnodion a restrir isod. Bydd angen i chi lenwi'r tabl i nodi'r hyn rydych chi'n ei ddarparu, a'r hyn nad ydych chi'n ei ddarparu.

Ar gyfer yr hyn yr ydych chi'n ei ddarparu, nodwch rif cyfeirnod priodol y dogfennau, er enghraifft, 'Dogfen B1 – Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd'.

Ar gyfer y rhai nad ydych yn eu darparu, nodwch y rheswm dros hyn.

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
|---|---|---|---|---|
| B1 | Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd | Copi o Gynllun Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 neu ddrafft os nad yw wedi'i gymeradwyo eto, gan gynnwys:<br>• Rhaglen arolygu y flwyddyn i ddod;<br>• Galwadau'r gwasanaeth. | | |
| B2 | Cynlluniau Corfforaethol/ Strategol | Lle cyfeirir at y CSHB yn benodol heblaw yn y Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd, bydd angen i chi gynnwys atodiad. | | |
| B3 | Gweithdrefnau cysylltiedig â'r CSHB | Copïau o'r holl weithdrefnau, cyfarwyddiadau gwaith/nodiadau cyfarwyddyd sy'n ymwneud â gweinyddu a gweithredu'r CSHB, fel:<br>• Rheoli cronfeydd data, gan gynnwys lanlwytho data a threfniadau wrth gefn yn dilyn problemau TG; | | |

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | • Trefniadau ar gyfer rheoli/atal lanlwytho gwybodaeth sensitif;<br>• Cyfeirio gweithredwyr busnesau bwyd at y mesurau diogelu;<br>• Cynnal ymyriadau gan gynnwys gwirio deunyddiau cyhoeddusrwydd, cymhwyso sgoriau risg, a chyhoeddi adroddiadau a sticeri statudol;<br>• Strategaeth Orfodi Amgen;<br>• Delio ag apeliadau, ceisiadau am ailymweliadau a ffurflenni 'hawl i ymateb';<br>• Monitro i sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn arddangos y sticer statudol;<br>• Monitro i sicrhau bod sticeri anstatudol a statudol a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u gwaredu.<br>• Gweithdrefnau gorfodi ar gyfer peidio ag arddangos sticer gan gynnwys cyhoeddi rhybuddion ysgrifenedig, Hysbysiadau Cosb Benodedig, erlyniadau a rhybuddion syml<br>• Ailedrych ar weithdrefnau busnesau bwyd; | | |

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynlluniau/ mentrau prosiect sy'n ymwneud â'r CSHB h.y. ymgyrchoedd gorfodi;<br>• Gweithdrefnau llywio cysondeb;<br>Gallai'r rhain fod yn weithdrefnau ar wahân neu wedi'u hymgorffori o fewn gweithdrefnau eraill, neu gallant ffurfio rhan o B1 uchod. Os nad oes gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig, rhowch ddisgrifiad o'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r materion uchod. | | |
| B4 | Aide-memoires safonol, adroddiadau arolygu a llythyrau templed sy'n berthnasol i'r CSHB | Dylid darparu copïau gwag o'r rhain. | | |
| B5 | Taenlen Excel o gronfa ddata <u>gyfredol</u> (Gweler Atodiad 1) | Dylai hyn gynnwys o leiaf y canlynol:<br>• Y dyddiad arolygu diwethaf a'r arolygiad nesaf;<br>• Sgoriau unigol ar gyfer hylendid, adeiladedd, hyder mewn rheolwyr, ac elfennau eraill o sgôr risg Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer pob busnes bwyd;<br>• Sgôr CSHB.<br>Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth am sefydliadau heb sgôr, gan gynnwys unrhyw rai na chafodd eu harolygu ond eu | | |

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | Mesurau diogelu'r CSHB<br><br>Cosbau gorfodi'r CSHB | bod wedi cael categori risg. Gellir darparu hyn mewn rhestr ar wahân, yn hytrach na'i gynnwys yn y tabl yn Atodiad 1.<br>Gwybodaeth fanwl lle, yn dilyn eu harolygiad diwethaf, mae busnesau wedi:<br>• Cyflwyno apêl;<br>• Gwneud cais am ailymweliad ar gyfer ailsgorio.<br>• Cyflwyno 'hawl i ymateb'.<br>Gwybodaeth fanwl lle, yn dilyn eu harolygiad diwethaf, mae busnesau wedi cael:<br>• Rhybudd ysgrifenedig;<br>• Hysbysiad Cosb Benodedig;<br>• Rhybudd Syml;<br>• Erlyniad. | | |
| B6 | Mesurau diogelu'r CSHB (3 blynedd diwethaf, o 1 Medi) | Rhowch restr ar wahân o sefydliadau sy'n: | | |

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gwneud cais am ailymweliad ar gyfer ailsgorio; gan gynnwys dyddiadau arolygu ac ailymweld, a sgoriau cydymffurfio gwreiddiol a'r ail-sgoriau yn ogystal â sgoriau cyffredinol.<br>• Cyflwyno 'hawl i ymateb'; gan gynnwys dyddiad yr arolygiad a'r dyddiad cyflwyno. | | |
| B7 | Cosbau gorfodi'r CSHB (3 blynedd diwethaf, o 1 Medi) | Rhowch restr ar wahân o sefydliadau a gafodd:<br>• Hysbysiad Cosb Benodedig;<br>• Rhybudd syml;<br>• Erlyniad.<br>Cofiwch gynnwys pob un o'r rhain: dyddiad yr arolygiad, sgôr gyffredinol, dyddiad gweithredu gorfodi, disgrifiad byr o'r canlyniad (Arddangos? Dedfryd?) | | |
| B8 | Gweithdrefnau Monitro Mewnol | Dylid darparu copïau o'r rhain i wirio bod y cynllun yn cael ei weithredu yn unol â gofynion statudol, gan gynnwys:<br>• Sicrhau bod swyddogion yn cyflawni gofynion statudol; e.e. cyfnodau amser<br>• Cywirdeb y data;<br>• Cysondeb ymyriadau a sgôr ymyrryd; | | |

| Cyfeiriad | Enw'r Ddogfen | Manylion | Atodiadau – Oes neu Nac Oes? | Rheswm dros beidio â chael atodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynnal gweithgareddau gorfodi; gan gynnwys uwchgyfeirio priodol. | | |
| B9 | Adroddiadau mewnol neu gofnodion o ymarferion cysondeb a monitro | Dylid darparu copïau o unrhyw adroddiadau/cofnodion. | | |
| B10 | Hyrwyddo'r CSHB | Rhowch fanylion unrhyw ymgyrchoedd addysgol/codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf (o 1 Medi). | | |

**Atodiad 1**

| Enw'r busnes | Cyfeiriad | Categori busnes LAEMS | Arolygiad diwethaf | Arolygiad nesaf | Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Pennod 5.6 Categori | Cyfanswm Sgôr | Math o Fwyd | Prosesu | Defnyddwyr | Grŵp Agored i Niwed | Hylendid | Adeiladedd | Hyder | Risg sylweddol | Sgôr Hylendid Bwyd | Statws y CSHB | Dyddiad anfon llythyr adroddiad yr arolygiad | Dyddiad yr apêl | Gwneud cais am ail-sgôr | Ymweliad ailsgorio | | Ffurflen hawl i ymateb | Dyddiad yr HCB | Dyddiad y rhybudd syml | Dyddiad yr erlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bizzies | Stryd Fawr. | Tafarn / clwb | 21/05/14 | 21/11/15 | C | 70 | 30 | 0 | 5 | 0 | 10 | 15 | 10 | 0 | 2 | Wedi'i gynnwys | Dyddiad | Dyddiad | Y/N | Dyddiad | | Wedi'i gynnwys | Dyddiad | Dyddiad | Dyddiad |

## Adran C – Adnodd staff

**Nodiadau**

Rhestrwch POB aelod o staff sy'n ymwneud â'r CSHB, gan gynnwys y Prif Swyddog sydd â chyfrifoldeb arbennig dros hylendid bwyd, rheolwr(wyr) a staff dros dro, staff asiantaethau a gweinyddwyr systemau. Gallwch chi ychwanegu rhagor o resi i'r tabl os oes angen.

Ar gyfer Swyddogion Awdurdodedig yn unig, nodwch nifer y blynyddoedd o brofiad gorfodi cyfraith bwyd, cyfran yr amser (mewn swydd gyfwerth ag amser llawn) a dreuliwyd ar orfodi bwyd a p'un a yw'r swyddog wedi'i awdurdodi i arolygu sefydliadau risg uchel ai peidio.

| Ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â'r CSHB | | Ar gyfer swyddogion awdurdodedig yn unig | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog** | **Rôl/teitl y swydd** | **Nifer o flynyddoedd o brofiad gorfodi bwyd** | **Swydd gyfwerth ag amser llawn yn gorfodi bwyd** | **Wedi'i awdurdodi i arolygu sefydliadau risg uchel – Ydy / Nac Ydy** | **Cyrsiau perthnasol y mae'r swyddog wedi eu mynychu yn ystod y 12 mis diwethaf** |
| | Prif Swyddog sydd â chyfrifoldeb arbennig dros hylendid bwyd | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |